# ECO'R WYDDFA

RHIF 87 RHAGFYR 1983 Pris: 20c




## HYSBYSEBION

Traddodiad sy' bellach mor hen â'r Eco ei hun yw rhoi cyfle yn rhifyn Rhagfyr a Ionawr i bobl busnes y fro i anfon cyfarchion y tymor atom ni eu cwsmeriaid fel arwydd o ddiolch a y gefnogaeth a roddwyd iddynt. Ein diolch ninnau iddynt hwythau am hysbysebu yn yr Eco.

I'r rhai ohonoch sy'n bwriadu hysbysebu, a'r trefnydd heb gael cyfle i'ch gweld eto – yna cysylltwch ag o yn ddi-oed. Daw'r rhifyn nesa o'r wasg ymhen pythefnos.

# YR EISTEDDFODAU

## PRIF LENOR YSGOL BRYNREFAIL



*Marina Bryn Roberts, Dinorwig o dŷ Eryri yn cael ei chadeirio am ei stori fer fuddugol ar y testun 'Cenfigen'.*

## ENILLWYR CWPANNAU DEINIOLEN



*Dyfan Siôn — enillydd y cwpan am y perfformiad gorau yn yr adran adrodd.*



*Aeth y cwpan am y perfformiad gorau yn yr adran gerdd i Dylan Wyn Williams.*





*Dylan Wyn Jones (chwith) enillydd y brif wobr am arlunio dan 18 oed ac Anna Taylor (uchod) o Ddinorwig a gynhyrchodd y gwaith llenyddol gorau dan 12 oed. Wedi dysgu Cymraeg y mae hi.*

*Llongyfarchiadau i bob un ohonynt. Canlyniadau'n llawn yng ngholofn Deiniolen.*

## FFUG EISTEDDFOD Y FRO

Ydi, mae'r amser wedi dod i gyhoeddi'n swyddogol y cynhelir un o'r digwyddiadau mawr yng nghalendr eisteddfodol y genedl, nos Wener, Chwefror 10, 1984. Dyna'r noson y daw pentrefi bro'r Eco i Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug i ymgiprys am yr anrhydedd o ennill Tlws y Ffwlbri.

Gwyddom yn dda y caiff y rhestr isod groeso gan amryw sy' eisoes wedi holi am y ffug-eisteddfod. Arwydd efallai y bydd y cystadlu yn fwy brwd nag erioed!

Dyma'r rhaglen:

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN**

1. Grŵp yn meimio i unrhyw record neu dâp.
2. Unawd dan 5 oed.
3. Parti iodlio.
4. Côr adrodd gydag effeithiau sŵn.
5. Tîm gymnasteg. (Pob tîm i ddod â'u hoffer eu hunain).
6. ADRAN AMBIWLANS.
   Cystadleuaeth i ddangos unrhyw agwedd o'r gwaith.
7. Dawns werin, pâr, o unrhyw wlad ac eithrio Cymru.
8. Cyflwyniad o deledu brecwast.

**CYSTADLAETHAU BARDDONLLYD A LLETHOL**

9. Prif wobr barddonllyd. Cerdd 'Crafu'.
10. Llythyr i ymddiheuro.
11. Cartŵn yn ymwneud â'r oes dechnegol.
12. Deg gorchymyn i fab neu ferch ar drothwy priodas.
13. Dewiswch unrhyw 10 o'r dyfyniadau poblogaidd isod gan ddychmygu pwy a'i dywedodd, wrth bwy ac ar ba achlysur:

(i) 'Mae mwy o harddwch ym mynyddoedd hon.'
(ii) 'Nawr lanciau rhoddwn glod.'
(iii) 'Tlws eu tw' liaws tawel.'
(iv) 'Pan fwyf yn hen a pharchus, Ac arian yn fy nghod.'
(v) 'Pererin wyf mewn anial dir.'
(vi) 'Duw a'm gwaredo, ni allaf ddianc rhag hon.'
(vii) 'Tw whit, tw hw.'
(viii) 'Cwsg ni ddaw i'm amrant heno.'
(ix) 'Ni wn yn wir, pa hawl a roed i mi I chwarae campau â'ch hanfodau chwi.'
(x) 'Rwy'n gorwedd efo'r hwyr Ac yn codi efo'r wawr.'
(xi) 'Y gwyllt atgofus bersawr Yr hen lesmeiriol baent.'
(xii) 'Arglwydd, gad im bellach gysgu.'
(xiii) 'Ble buost ti neithiwr fab annwyl dy fam?'
(xiv) 'Mi sydd fachgen ifanc ffôl Yn byw yn ôl fy ffansi.'

Gosodir cystadleuaeth llinell goll noson yr Eisteddfod.

**Y cyfansoddiadau i fod yn llaw y trefnydd – Miriam Hughes, Yr Allt Deg, Cwm-y-glo erbyn nos Fercher, Chwefror y cyntaf.**

## PLANT MEDDYLGAR LLANBERIS

**Does gan Mrs Davies, Matron Plas Pengwaith ond gair da am rai o blant Llanberis. Yn ddiweddar aeth un ar ddeg ohonynt ati, ar eu liwt eu hunain, i drefnu taith gerdded noddedig ac hefyd i drefnu casgliad ar Noson Galangaeaf. Cyflwynwyd £22.50 i'r Plas. Dyma enwau'r plant meddylgar – Llifon Foulkes, Geraint Evans, Colin Griffiths, Kevin Edwards, Nerys Hughes, Kathy Jones, Carys Hughes, Bethan Jones, Debbie Hughes, Geraint Williams a Hannah Rudkin.**

**Mae plant eraill wedi bod yn dod yn rheolaidd i'r Cartref, eto o'u gwirfodd. Maent yn dod i ganu recordyddion i'r trigolion ac i sgwrsio â hwy. Weithiau maent yn gwneud casgliad i brynu siocled ac yna ei ddosbarthu yn y Plas.**

**"Mewn oes pan mae cymaint o redeg ar blant a phobl ifainc," meddai Matron Davies, "peth braf yw cael canmol yr ymdrech ddiffuant sy'n cael ei wneud ganddynt ar ran eu cymdogion hŷn." Ein pleser ninnau yn yr Eco yw cael adrodd stori mor hapus.**

## YMDDIHEURO

Drwg gennym orfod siomi y rhai ohonoch o'r Waunfawr sy'n disgwyl gweld lluniau o'r eisteddfod bentref yn y rhifyn hwn. Nid oedd yn bosib datblygu unrhyw un o'r lluniau a dynnwyd ar y ffilm – eisteddfod Waunfawr na digwyddiadau mewn rhannau eraill o'r fro. **Nid oes fai ar unrhyw un o'r ffotograffwyr.** Ymddengys bod diffyg ar ein camera. Pan sylweddolwyd hynny roedd yn rhy hwyr i wneud dim ynglŷn â'r peth ar gyfer y rhifyn hwn. Gobeithiwn wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cael y lluniau yn y rhifyn nesa fydd yn ymddangos mewn pythefnos.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 87**
**RHAGFYR**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION**: Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION**: Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS**: Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFWYR**: Ifan Parry, Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (Caernarfon 77163)
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION**: John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227)
**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL**: D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN**: W.O.Williams Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)
**DINORWIG**: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS**: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol (Llanberis 870220)
**NANT PERIS**: T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG**: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN**: Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU**: Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**Rhagfyr 15**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH**
**Rhagfyr 6**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

**DEWCH I GOMIN GREENHAM**
*Annwyl Olygydd,*

*Gair ar ran Ymgyrch Ddiarfogi Niwcliar Dyffryn Peris (CND) ynglŷn â'r taflegrau Cruise sydd yn awr yn cyrraedd Comin Greenham.*

*Er bod dyfodiad Cruise yn ddychryn i bob person rhesymol, megis dechrau mae'r ymgyrchu yn erbyn yr arfau hyn. Mae mwy a mwy o bobl yn arswydo wrth ddeall y bydd milwyr yr Unol Daleithiau â'u bysedd ar fotwm Cruise — arf a gynlluniwyd i daro'n gyntaf yn erbyn pobl a phlant yr Undeb Sofietaidd. Mae'n rhaid i CND lwyddo i rwystro'r gwallgofrwydd hwn neu fe fydd yr Unol Daleithiau â'r gallu i ddefnyddio Cruise, ynghyd â Pershin, i gychwyn rhyfel niwcliar yn Ewrop. Busai bron pawb ohonom ni a'n plant yn cael eu lladd yn y fath ryfel erchyll.*

*Er mwyn osgoi'r fath dynged mae'n holl bwysig bod pawb sydd o'u plaid yn cefnogi ymgyrchoedd CND yn y dyfodol agos. Bydd bysiau o'r ardal hon yn mynd i'r brotest fawr yng Nghomin Greenham ar Ragfyr 11. Mae croeso i unrhyw un fedr ddod i'n cefnogi yn y gwrthdystiad tyngedfennol hwn gysylltu â mi ynglŷn â'r manylion teithio* (**Caernarfon 3838**).

*Yn gywir,*
*Hefin Jones*
*Pant Mwyn*
*Llanrug*

*HANES AR LAFAR*
*Annwyl Syr,*

*Mae Gwasanaeth Archifau Gwynedd newydd ddechrau cynllun hanes llafar gyda'r pwrpas o dapio gwybodaeth am chwareli, rheilffyrdd, llongau, ffatrioedd, arferion lleol ac yn wir unrhyw destun o ddiddordeb hanesyddol. Y gobaith yw ehangu ein dealltwriaeth o gymdeithas trwy hel atgofion am yr ysgol, y lleoedd, gwaith a gweithgareddau amser hamdden.*

*Byddem yn falch iawn o glywed gan unrhyw un fyddai'n hoffi cyfrannu at y cynllun neu sydd yn gwybod am rywun addas i wneud hynny.*

*Yn gywir,*
*Karen Black a Hilma Lloyd Edwards*
*Arolygwyr cynllun hanes llafar*
*Swyddfa'r Sir*
*Caernarfon*
*Ffôn: 4121*

**LLUN O'R HEN YSGOL**
Annwyl Olygydd,

Difyr iawn oedd darllen tipyn o hanes Bethel yn yr hen amser yn rhifyn Tachwedd o 'Eco'r Wyddfa' ac yn arbennig felly wrth weld llun fy nghartref – Preswylfa – ynddo.

Bydd fy nhad, Ifor Humphreys, yn anfon copi o'r 'Eco' i mi o dro i dro a manteisiaf ar y cyfle yma wrth ysgrifennu i anfon cyfraniad bychan at y costau o'i gynhyrchu.

Petai llun ar gael o'r Hen Ysgol (Cartref a Preswylfa) byddwn yn falch o'r cyfle i'w brynu.

Diolch i'r rhai a fu'n gweithio y gwaith ymchwil – rhywbeth y bûm i yn meddwl drosto ers blynyddoedd – efallai y daw hamdden i mi wneud hynny cyn bo hir!

Yn ddiffuant,
Marion Jones (Mrs)
9 Lôn Werdd
Sain Ffagan
Caerdydd

*TLWS MARY VAUGHAN JONES*
*Annwyl Olygydd,*

*Ym mis Chwefror 1983 bu farw Mary Vaughan Jones, un o brif gymwynaswyr llenyddiaeth plant yng Nghymru. Yn ystod ei gyrfa bu Mary Vaughan Jones yn dysgu yn Ysgol Gynradd Cwm Penanner (1940-43), Ysgol Lluest Aberystwyth (1943-49), Ysgol Baratoad Aber-mad (1949-53) ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth (1953-58). Ym 1958 derbyniodd swydd yn y Coleg Normal, Bangor fel darlithydd — swydd a lanwodd hyd 1972.*

*Roedd Mary Vaughan Jones yn athrawes freintiedig a bu ei chyfraniad fel darlithydd coleg o werth amhrisiadwy i addysg Gymraeg, ond mae'n debyg mai ei chyfraniad mwyaf gwerthfawr, er hynny, oedd ei chyfraniad cyfoethog a chyson i faes llenyddiaeth plant Cymru dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain ymron, a hynny er gwaethaf brwydr boenus yn erbyn afiechyd cynyddol. Cyhoeddwyd tua deugain o'i llyfrau a chyfrannodd yn rheolaidd i gylchgronau'r Urdd.*

*Er mwyn coffáu cyfraniad sylweddol ac unigryw Mary Vaughan Jones i faes llenyddiaeth plant bydd Canolfan Llenyddiaeth Plant Cymru yn cyflwyno* **Tlws Mary Vaughan Jones** *bob tair blynedd i berson am ei gyfraniad-chyfraniad arbennig iawn i faes llyfrau plant yn y Gymraeg dros gyfnod o flynyddoedd. Fodd bynnag, bydd yn angnrheidiol sefydlu cronfa arbennig o arian i brynu'r tlws bob tair blynedd ac i weinyddu'r seremoni, ac i'r perwyl hwn mae Canolfan Llenyddiaeth Plant Cymru yn lansio cronfa* **Tlws Mary Vaughan Jones**. *Y nod yw casglu o leiaf £1,000 a buddsoddi'r arian fel y gellir defnyddio'r llog yn y dyfodol. Cyflwynir* **Tlws Mary Vaughan Jones** *am y tro cyntaf ym 1985.*

*Rwy'n siŵr y bydd nifer o gyn-ddisgyblion, cyn-fyfyrwyr, cyd-athrawon, cyd-ddarlithwyr a chyfeillion Mary Vaughan Jones yn awyddus iawn i gyfrannu i'r gronfa hon er mwyn sicrhau teyrnged barhaol i un a ddarparodd arlwy anrhydeddus ar gyfer plant Cymru.*

*Yn gywir,*
*Menna Lloyd Williams*
*Trefnydd*
*Canolfan Llenyddiaeth Plant Cymru*
*Castell Brychan*
*Heol y Bryn*
*Aberystwyth*

*ATGOFION AM FRYN MEIRION*
*Annwyl Olygydd,*

*Ymhen dwy flynedd, Tachwedd 1985, fe fydd y BBC yn dathlu hanner canrif o ddarlledu o'r Gogledd. Defnyddiwyd y stiwdio ym Mryn Meirion gyntaf yn Nhachwedd 1935 ar gyfer darlleniad gan y Gwir Anrhydeddus David Lloyd George.*

*Byddwn yn ddiolchgar am wybodaeth, lluniau, am atgofion, am geiriau o unrhyw fath sydd ar gael o'r cyfnod cynnar gan y cyhoedd a chan gyn-aelodau o'r staff i'n helpu i baratoi rhaglenni, arddangosfa ac o bosib lyfr ar hanes darlledu o Fangor 1935-1985.*

*R. Alun Evans,*
*Pennaeth Cynhyrchu,*
*BBC*
*Bryn Meirion*
*Bangor*

*CYSTADLEUAETH STORI FER*
*Annwyl Olygydd,*

*Efallai y bydd y canlynol o ddiddordeb i'ch darllenwyr.*

*Mae rhaglen Cil y Drws (bore Llun, Radio Cymru) yn cynnal cystadleuaeth stori fer radio.*

*Rydym yn chwilio am berl o stori ddifyr, annisgwyl a blasus, dim hwy na deng munud, i'w darlledu ar raglen Beti George ar fore gŵyl San Steffan, Rhagfyr 26.*

*Ewch ati ar unwaith i roi'r gampwaith hir ddisgwyliedig ar bapur a danfonwch hi atom ni erbyn Rhagfyr 16. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r cynhyrchydd, Cil y Drws, BBC, Llandaf, Caerdydd. Bydd gwobr!*

*Bonne awen,*
*Dansil Jones*
*(Cynhyrchydd 'Cil y Drws')*

**W.J. GRIFFITH**
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr..*

Dysgwch yrru'r car gydag
**Y.Y.O.**
**YSGOL YRRU OFALUS**
* Gwasanaeth 7 diwnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
**PRITCHARD**
**43 glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

## PLANT YR URDD CWM-Y-GLO 1932



*Annwyl Olygydd,*

*Amgaeaf lun o blant yr Urdd Cwm-y-glo yn y flwyddyn 1932, mae'n siŵr y bydd o ddiddordeb i lawer sydd yn ymddangos ynddo. Rwyf fi fy hun ynddo, y drydedd yn yr ail res ar y dde yn agos i'r faner, rhwng y ddau blentyn sydd tu ôl i Len Parry. Mae Dei Jones, fy mrawd a chyfaill mawr i Len yn eistedd yn y gadair ar y dde iddo. Mae fy nhad, sef W.J. Jones y trydydd ar y chwith yn y rhes ôl, wrth ei ochr mae Myfanwy Williams a Buddug Jones. Roedd fy nhad yn un o'r trefnwyr ac mae'r bathodyn sydd ar fflap ei gôt gen i o hyd. Mi fedraf enwi llawer o'r plant ond nid oes gennyf syniad lle maent erbyn hyn gan fy mod wedi ymadael â Chwm-y-glo ers y flwyddyn 1939. Fe fyddaf yn cyfarfod â rhai o bobol y Cwm yn yr Eisteddfod Genedlaethol o dro i dro ac yn falch a llawen iawn o gael gair â nhw. Rwyf yn edrych ymlaen am 'Eco'r Wyddfa' bob mis a chael darllen hanes y trigolion a'u gweithgareddau.*

*Llawer o ddiolch.*

*Yr eiddoch yn gywir*
*(Mrs) Catherine E. Roberts*
*(Betty Jones gynt)*
*7 Oxley Links Road*
*Oxley*
*Wolverhampton*


## LLYWODRAETH LEOL NEU GANOLOG – P'RUN SY ORAU AM GADW TŶ TREFNUS?

**Mae'r Llywodraeth bresennol yn dadlau bob amser fod gwariant llywodraeth leol (sir, dosbarth a chymuned) wedi cynyddu cymaint yn y blynyddoedd diwethaf fel ei bod bellach yn broblem enfawr.**

**Rhoddwyd canllawiau i lywodraeth leol ac o'r herwydd lleihawyd y gwariant o ryw 3 y cant mewn gwir werth. Er diddordeb, cynyddodd gwariant y llywodraeth, yn yr un cyfnod, oddeutu 19 y cant. Wrth gofio hyn dylid ystyried y bu i lywodraeth leol ostwng eu gwariant, er iddynt dderbyn gwaith ychwanegol a roddwyd arnynt a hefyd adrannau twf fel yr heddlu, trafnidiaeth, gwasanaeth tân a chartrefi henoed. Os tynnir ymaith y gwario ychwanegol ar yr heddlu mae gwariant llywodraeth leol wedi gostwng tua 6 y cant.**

**Mae'r graff isod yn gymorth i ddarlunio'r sefyllfa.**

**Newid mewn gwariant cyhoeddus 1977-78 i 82-83**




**Fel y gwelwch mae eich llywodraeth leol yn gwneud ymgais ynglŷn â'r gwariant. Nid yw'r llywodraeth ganolog yn gwneud yr un modd.**

## DEWCH AM DRIP TRWY DDYFROEDD DYFNION

Mae un o'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd yn y calendr Cymraeg yn ei ôl – pantomeim blynyddol Theatr Cymru. Caiff cynulleidfaoedd Gwynedd y cyfle cyntaf i weld y pantomeim a hynny yn Theatr Gwynedd cyn diwedd y flwyddyn.

Mae *Dyfroedd Dyfnion* yn seiliedig yn ar nifer o hen chwedlau Cymraeg. Cyd-blethwyd tair chwedl i greu un sbloets anferth o bantomeim lliwgar, llawn digwydd gyda'r addewid, fel arfer, am lond theatr o chwerthin hwyliog.

Ymysg y cymeriadau chwedlonol a fydd yn ymddangos mae Cilmyn ac Esyllt, Math ac Arianrhod a Seithennyn – gŵr sydd mewn dipyn o helynt wedi boddi Cantre'r Gwaelod!

Mici Plwm fydd yn chwarae rhan y prif gymeriad, Seithennyn, gydag actorion parhaol Theatr Cymru: Alun ap Brinley, Nia Caron, Richard Elfyn, Geraint Lewis, Betsan Llwyd, Rhian Morgan ac Ynyr Williams yn chwarae'r rhannau eraill. Gruffydd Jones fydd yn cyfarwyddo. Gwenno Hywyn a Manon Rhys o Landwrog yw cyd-awduresau Dyfroedd Dyfnion. Bu eu sgript wreiddion yn fuddugol mewn cystadleuaeth ysgrifennu pantomeim yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth, 1981.

Y dyddiadau ac amseroedd holl bwysig yn Theatr yw: Mercher-Gwener, 29-30 Rhagfyr am 2.00 a 7.00; Mawrth 3 Ionawr am 7.00; Mercher-Gwener, 4-6 Ionawr am 2.00 a 7.00; Sadwrn 7 Ionawr am 2.00; Mawrth-Mercher, 10-11 Ionawr am 2.00 a 7.00. Yn ogystal bydd dau berfformiad 'prifiw' arbennig cyn y Nadolig – Gwener 23 Rhagfyr am 2.00 a 7.00.

## CHWARA PLANT
## Cynhyrchiad diweddaraf Theatr Bara Caws

Hyd yma, bu Theatr Bara Caws yn perfformio sioeau cymuned a fu'n ymwneud un ai â chyfnodau hanesyddol ein gwlad neu broblemau cymdeithasol y presennol ond lleolir y ddrama hon mewn pentre gwledig yng Ngwynedd yn y flwyddyn 1993. Drama yn trin a thrafod y dyfodol felly? Tybed. Cadw 'fisityrs' yw prif ddiddordeb Beti Morris a saer coed wedi ymddeol o'i wirfodd yw Wil ei gŵr. Mae Gareth 'drws nesa' yn gweithio mewn swyddfa Cymdeithas Adeiladu yn y dre' a Nesta ei wraig yn gweithio yng nghantîn yr ysgol leol. Fel gyda phob teulu drwy'r oesoedd, dyfodol eu plant yw eu prif gonsyrn. Sut ddyfodol fydd hwnnw?

Drama newydd gan Michael Povey yw 'Chwara Plant' a gomisiynwyd yn arbennig gan Theatr Bara Caws. Mae'r actorion yn cynnwys Elfed Dafis, Elliw Haf, Stewart Jones a Beryl Williams ac fe gyfarwyddir y rhaglen gan Myrddin Jones.

Cewch gyfle i weld y perfformiad yn Ysgol Brynrefail, Llanrug nos Iau Rhagfyr 15 am 7.30.


Manylion ynglŷn â thocynnau ar gael gan Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug. Ffôn: C'fon 4839.

**EISTEDDFOD Y GROESLON**

**13-14 EBRILL 1984**
**Ysg. Alun M. Roberts, Tŷ Newydd, Y Groeslon**
**Ffôn: 830122**
Cofiwch am gystadleuaeth arbennig
Gwobr £75
Dyddiad cau – Mawrth 31

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

TŶ TRWYDDEDIG
LLETY
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 4753
(ar y ffordd newydd Caeathro-Bontnewydd)
Prydau o 7.00pm. Yn awr yn cymryd archebion ar gyfer partïon Nadolig a blwyddyn Newydd.
Ar agor ar gyfer Cinio Nadolig
Ffoniwch Mrs Eirlys Birch am fanylion pellach



# CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS

## Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!





**Llanberis Art & Craft**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Ffôn: LLANBERIS 870597

---

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth*

**Gwenda ac Arthur Rudkin, Lisa, Hannah, Angharad, Siwan a Llywelyn**



**The Tea Shop - Llanberis**

---

Mae Mr a Mrs A.W. Hughes yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll gan ddiolch i bawb a'u cefnogodd yn y gwesty.




**BWYTY FFERM**

**BRON ERYRI**

**LLANBERIS** Ffôn 870391

---

## HAIRLINES

STRYD FAWR

LLANBERIS

CYNLLUNWYR GWALLT

YN ARBENIGO MEWN TORRI

Dymuna Derek a'r genethod Gyfarchion y Tymor i bawb

**Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda perm yn ein SALE IONAWR 3ydd**

---

## ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.



FFERYLLYDD

**COMPTON HOUSE**

**LLANBERIS**

**Ffôn: 870264**

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

**GWERTHWR SWYDDOGOL**

**Persawriau SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY, MAX FACTOR**

**Ffilmiau a chamerau AGFA, KODAK, a FUJI**

**Dewis da o winoedd a gwirodydd**

*Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau am brisiau cystadleuol*

**NADOLIG LLAWEN I BAWB!**



Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth

# CENTRAL GARAGE

LLANBERIS.
Ffôn: 870202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

DEWCH I GAEL EICH 'PERM' NADOLIG

PRISIAU ARBENNIG AR **DDYDD MAWRTH** I BENSIYNWYR

# NEW IMAGE

**HAIR DESIGN**
**STRYD FAWR**
**LLANBERIS 870627**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



**NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL
oddi wrth
ARFON A DILYS PHILLIPS**

# Dorothy's

**SIOP 'DAFEDD
A DILLAD PLANT
38 STRYD FAWR
LLANBERIS** Ffôn: 870772

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth

# Y Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

*Ffôn: LLANBERIS 871278*
(Danny a Nerys Roberts)
**Pryd gorau'r fro**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**S. Roberts**

# HARLEYS

**Stryd Fawr
LLANBERIS 870393**

DILLAD PLANT A MERCHED
Tracy Sue, Eastex a llawer mwy

Nid dim ond siop i ddringwyr ydi siop Joe Brown
Dewch, er enghraifft, i weld y dewis gwych o gotiau 'quilted' i'w gwisgo bob dydd.
Mae'r prisiau cyn rhated â neb yn y cylch ac mi wnaent anrhegion Nadolig delfrydol.

**Cofiwch –
I ddringwyr a llawer mwy!**

# joe brown

**CLIMBING & CAMPING EQUIPMENT SPECIALIST**

**Ffôn: LLANBERIS 870327**

**Hefyd yng NGHAPEL CURIG (tu cefn y Post)
069 04 205**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

Dymuna
Mervyn,
Jill a Helen Jones

# CASTLE GIFT SHOP

**LLANBERIS Ffôn: 870379**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

**Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets, Melysion, Llyfrau a llawer mwy**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**DORIS ac ELIZABETH**
**D & E**
**Dinorwig House**
**LLANBERIS 870300**

Dewch atom ar gyfer anrhegion Nadolig i bawb o'r teulu. Nwyddau ffansi, Cardiau Nadolig, Papur Lapio etc.

DYMUNA
CLEDWYN A BETTY PARRY
GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS
870301
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau a chwsmeriaid oll


**MWY O GYFAR**
**LLAN**

**SIOPAU COED**
STRYD FAWR
**LLANBERIS**




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
**MARTIN & CAROL**

**PRINCE OF WALES LLANBERIS**

Cwrw blasus
Croeso cartrefol

Adloniant:–
**Nos Fercher a Nos Sadwrn**
Canu Cymraeg efo'r organ
**Nos Wener**
Country & Western



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll**
**oddi wrth**
**THOMAS PRITCHARD**
***IRONMONGER***
**(D.A. LEWIS)**
**BIRMINGHAM HOUSE**
**LLANBERIS**
**Ffôn: 870206**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*
**CELTIC HOUSE**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**Ffôn: 871388**
**CYNNWYS SWETARS BRYN-Y-MYNYDD a THEGANAU MEDDAL HYFRYD I'R PLANT AM BRISIAU RHAD**


**BRINLEY ROBERTS**
Peintiwr a Phapurwr, Glanhawr Ffenestri a Mân Waith Atgyweirio
**Ffôn: LLANBERIS 871101**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Mr a Mrs W. JONES, a GWEN
**Padarn Stores**
**LLANBERIS**
**Llanberis 870496**
**BARGEINION**
**Mace**

**GWESTY A THŶ BWYTA**
**LAKE VIEW**
**LLANBERIS**
**870422**
**Dymuna Val a Brian Taylor Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd lwyddiannus i bawb**
Mae ein lle bwyta trwyddedig ar agor trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnig dewis helaeth o brydau A La Carte a Phrydau Bar.

**·G.L. JONES·**
ENGINEERING
**GROVE HOUSE, LLANBERIS ☎ 870322**
(G.L., H.L. & E.L. Jones)

* Gwneud a gosod celfi caeau chwarae
* Cysgodfannau dal bws
* Ring Rolling
* Torri a Phlygu dur
* Grisiau Dianc
* Unrhyw waith dur yn unol â'r darlun



*Nadolig Llawen Iawn i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa*

CHION NADOLIG

BERIS



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH

**Teganau**

YN SIOP

**E.WILSON HUGHES**

**84 Stryd Fawr**

**LLANBERIS** 870491

Wrth ymddeol o'r siop dymunaf ddiolch ichi am bob cefnogaeth dros y blynyddoedd. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**IDWAL THOMAS**

SIOP ESGIDIAU
Stryd Fawr

**LLANBERIS**

*Ffôn: LLANBERIS 871282*

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**Vera, Haydn a John**

**SIOP CHIPS**

SNOWDON VALLEY

**LLANBERIS**

Ffôn: Llanberis 870659

**MYRA'S**

44A STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 872361

Dymuna Mr a Mrs Starkey, Nigel ac Alicia Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cwsmeriaid, hen a newydd

CARDIAU, ANRHEGION, MELYSION, SIGARETS, HUFEN IA, NWYDDAU LLEDR

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
**Wil a Garvin**

**TOM JONES**

A'R CWMNI



STORFA GIG
GLAN PADARN
LLANBERIS
Ffôn: 870319

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

**H.E.HUGHES**

**a'r MEIBION**



Ffôn: 870444


MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
AM 1984
oddi wrth
W. J. DAVIES

**MODURDY'R WYDDFA**

**LLANBERIS** Ffôn 870225



A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

ROYAL VICTORIA HOTEL

GWESTY BRENHINOL VICTORIA

LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth



***WESTY BRENHINOL VICTORIA LLANBERIS***

FFÔN: LLANBERIS 870253



# LLANBERIS

**Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)**

DYWEDDÏO: Llongyfarchiadau i Philip mab Mr a Mrs John Guy, 55 Dôl Elidir ar ei ddyweddïad â Debbie Thomas, 35 Rhydfadog, Deiniolen.

Llongyfarchiadau hefyd i Ann, merch Mrs Joyce Jones, Dôl Elidir a'r diweddar Emyr Jones ar ei dyweddïad â Kenneth, mab Mr a Mrs J. Hughes, 4 Cil Isaf, Caernarfon.

DIOLCHIADAU: Dymuna Helen ac Elwyn sydd yn byw ar hyn o bryd yn Huntingdon, ddiolch yn gynnes iawn i bawb o'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y llu anrhegion a chardiau dymuno'n dda a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu merch fach, Gwenan. Gwna hyn Wilbert Davies a'i briod yn daid a nain am yr eildro.

Dymuna Mrs Jennie Maud Jones, 81 Maes Padarn ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag ati drwy anfon cardiau ac anrhegion iddi tra bu yn Ysbyty Clatterbridge, Y Wirral, ac hefyd ar ôl iddi ddod gartref.

Dymuna Mr a Mrs John Thomas, 61 Maes Padarn ddiolch i'r plant, perthnasau, cyfeillion a llawer o'r pentrefwyr am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur, hefyd ar ben-blwydd John Thomas yn 80 oed.

UN O'R SIOPAU BACH:
Cyflwynwyd y llun yma o un o'r Siopau Bach, Bach y soniwyd amdanynt beth amser yn ôl. Dyma Siop Ceunant, wedi i Nain Ceunant fel y byddai'r plant yn galw priod Robert Jones, addurno'r ffenestr yn gyfan gwbl gyda 'trimmings' y Nadolig. Mrs Elizabeth Jones, Pentre Castell sydd wedi anfon y llun.



CYMDEITHAS Y MERCHED:
Cyfarfu aelodau o'r uchod yn Haulfryn ar Dachwedd 3. Cafwyd stondin brynu a gwerthu a mwynhawyd cwpaned o de gan yr aelodau.

Dymuna Wendy, 1 Stryd y Dŵr, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y blodau, cardiau a'r holl anrhegion a dderbyniodd ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Lerpwl. Diolch hefyd i Nyrs Beth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Darllenwyd llythyr oddi wrth Swyddog Gofal Plas Pengwaith yn diolch i'r Sefydliad am eu cyfraniad i'r Diwrnod Agored yn y Cartref.

Dymunwyd adferiad buan i Mrs Gwen Edwards a Mrs Betty A. Owen. Y wraig wadd oedd Mrs Maud Williams, Caernarfon, a chafwyd arddangosfa wych ganddi o addurniadau Nadolig wedi eu gwneud o gelyn a dail gwyrdd. Diolchwyd iddi, ac i'r gwestwragedd, Mrs Jean Elis, Mrs Betty Humphreys a Mrs Ray Williams gan Mrs Katie Williams a Mrs Mair E. Owen.

SYNIAD CAMPUS: Bu Kevin Edwards, Stryd Fawr, Colin Griffiths, Summer Hill, Geraint Evans, Gwesty Gwynedd a Llifon Foulkes, Maes Padarn yn brysur iawn ddechrau mis Tachwedd yn casglu o dŷ i dŷ 'Penny for the Guy'. Casglasant £4.90 a'i drosglwyddo i gartref Plas Pengwaith. Ardderchog iawn fechgyn, peth da yw medru helpu pobl eraill, ynte!

FFAIR NADOLIG: Pnawn Gwener, Tachwedd 18 yn y Ganolfan cynhaliwyd Ffair Nadolig flynyddol. Clwb yr Henoed. Bwriadwyd i Mr Wilson Hughes, Siop Eryri agor y ffair yn swyddogol, ond drwy afiechyd methodd a phresenoli ei hun. Yn ei absenoldeb daeth Mr Ieuan Jones, Erw'r Coed i'r adwy, ac wrth ei gyflwyno i'r llu mawr a ddaeth ynghyd, diolchodd Cadeirydd y Clwb, Meira Bryn Hughes i Ieuan Jones am ei gefnogaeth bob amser, ac hefyd cyfeiriodd at haelioni Wilson Hughes i'r Clwb ar hyd y blynyddoedd. Bu'r clwb ar ei ofyn lawer tro a chafwyd ymateb ardderchog bob amser. Bu yn ffrind calon i'r clwb, ac mae dymuniadau gorau yr oll o aelodau'r clwb iddo ef a'i briod wrth iddynt ymddeol, a llawer blwyddyn ddedwydd iddo ef a'i briod Alice.

Mawr yw diolch y pwyllgor i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y dydd. Y diolch pennaf i siopwyr ar ardal am eu haelioni i'r pensiynwyr am eu cyfraniadau, ac i bawb a fu'n cefnogi'r ymdrech.

Bydd y cyfarfyddiad nesaf yn y 'Te Bach' pryd y disgwylir aelodau newydd i ymuno â'r clwb.

CLWB Y MAMAU IFAINC: Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae Clwb y Mamau Ifainc wedi cael amrywiaeth o anerchiadau ac wedi mwynhau'r cyfan yn fawr iawn. Ym mis Medi cafwyd anerchiad gan Mrs Mary Last, meddylegwraig gyda phlant, o Ganolfan Plant Bangor. Rhoddwyd y sosial y noson honno gan Mrs Meirwen Jones, Mrs Ann Jones, Mrs Meira Willis, Mrs Helen Sharp a Mrs Margaret Roberts.

Yn ddiweddarach yn y mis bu'r Heddgeidwad Evans yn rhoi adroddiad o'i waith yn y cylch, a rhoddwyd y te gan Mrs Nettie Williams, Mrs Delyth Roberts, Mrs Dilys Phillips, Mrs Ethel Jones.

Ac yn y cyfarfod diwethaf bu Miss Ceri Pierce, yr Ymwelydd Iechyd lleol sydd yn adnabyddus iawn i'r henoed ac yn ffrind mawr iddynt, yn dangos ffilmiau ar ei gwaith gyda'r henoed a'r afiach. Cafwyd noson ddifyr dros ben, a diolchwyd iddi gan y cadeirydd, Mrs W. Roberts. Rhoddwyd y lluniaeth gan Mrs Carys Hughes, Mrs Laura Williams, Mrs Enfys Parry a Mrs Dilys Roberts.

EISTEDDFOD: Yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen eto eleni cafodd Rhiannon, unig ferch Mr a Mrs Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton y wobr gyntaf am ganu'r piano. Campus iawn Rhiannon, a llwyddiant mawr i'r dyfodol.

Y CLWB ANABL: Cafodd aelodau Clwb Methedig Eryri eu parti blynyddol mewn gwesty yn Edern yn ystod y noson cyflwynwyd
Mrs Nellie Williams, Baladeulyn, Stryd Newton ar ei hymddeoliad fel ysgrifenyddes i'r Clwb.



YR URDD:
Wrth edrych drwy'r 'Eco' y mis diwethaf a gweld llun o blant yr Urdd flynyddoedd yn ôl, cofiodd Mrs Enid Mabel Williams, Llys Eidde, Stryd Newton fod ganddi hithau lun rhywle yn y tŷ. Llun o faner yr Urdd. Daeth o hyd iddo a dyma welwch yma, Baner yr Urdd, Adran Llanberis, yn y flwyddyn 1933. Yr adeg honno cyflwynwyd Bathodyn i'r goreuon ymhob cystadleuaeth ac addurnwyd y Faner â'r bathodynnau. Roedd llwyddiant a bri mawr ar yr Urdd yr adeg honno. Gellir gweld hynny oddi wrth y llun bathodynnau. Rydych yn adnabod y tair sydd yn y llun rwy'n siŵr – Mrs Enid Mabel Williams un ochr, a'i chwaer Pricilla (Mrs Ellis Hughes, Caernarfon heddiw), ac yn eistedd yn y canol, Lea Lloyd – Mrs Glyn Williams, hithau'n byw tua Phenrhyndeudraeth erbyn heddiw.

CYDYMDEIMLAD: Estynnir cydymdeimlad â Mr Hugh Williams, Pant Du ar golli ei chwaer Hilda a wnaeth ei chartref flynyddoedd yn ôl yng Nghricieth.

Hefyd collodd Mrs Nellie Williams, Baladeulyn, Stryd Newton ei chefnder, Richard Jones yn America. Ein cydymdeimlad iddi hithau hefyd.

RHEDEG: Yn ystod y mis bu Linda a Paul ei brawd, mab a merch Mr a Mrs John Prydderch, Bronallt yn llwyddiannus yn Ras Chwe Milltir y Llewod a drefnwyd ym Mangor. Maent wedi ennill pob ras rhedeg yn eu ystod y tymor yma. Campus iawn wir. Gresyn na fu'r llu bechgyn a ddechreuasant mor dda ddwy flynedd yn ôl wedi dal ati fel Paul a Linda.

CLWB ERYRI: Yn ystod y ddau fis diwethaf cafwyd dwy noson ddifyr iawn yng Ngwesty Gwynedd gan aelodau o Glwb Eryri. Gyda'r Parch Gwynfor Williams yn llywyddu cafwyd araith ar 'electronics' gan Mr Evan Parry, Ceunant, Llanrug.

Yna, yn ddiweddarach yn y mis gyda Mr John Roberts-Williams o Lanrug yn llywyddu anerchwyd yr aelodau gan Mr Stanley Owen, cyn-brifathro Ysgol Dolbadarn. Cyfeiriwyd at waeledd un o'r aelodau – sef J.W. Elis (Perisfab) o Nant Peris a dymunwyd iddo adferiad llwyr yn fuan iawn.

GWAELEDD: Y mis hwn eto mae amryw o'r pentrefwyr yn cwyno, rhai yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd ac eraill yn yr ysbytai yn derbyn triniaeth llawfeddygol. Pa le bynnag y maent ar hyn o bryd, dymunir iddynt adferiad llwyr.

Deëllir fod y cyfeillion yma wedi dychwelyd i'w cartrefi o'r ysbytai: Mr Arthur Evans, Cynlas; Mr Derek Jones, Stryd yr Wyddfa; Wendy Jones, Stryd-y-dŵr; Mrs Jennie Maud Jones, Maes Padarn; Mrs Doris Williams, Lôn Tŷ Du; Mrs Beti Arfon Owen, Maes Padarn; Mrs Doris Hughes, Beech Bank, Mr Emlyn Davies, Mona, Mrs Evans, Derlwyn, Christine Pitts, 2 Pen y Bont.

Yng Nghartef Ceris, Bangor mae Mrs Gwyneth Williams, Eirianfa ac yn Nhyddyn Elan, Llanrug y mae Mrs Parry-Davies, Pen-y-graig.

Cymerwyd Mrs Beti Rees Evans, Teras Minafon yn wael yn ei chartref ar ddechrau'r mis yma. Mawr yw gofal ei mab a'i merch amdani – a daeth Bryn i ymgyrchu ei fam a'i symud am rai misoedd ato ef a'i chwaer i Coventry. Brysiwch fendio Beti, fe synnech maint yr holi sydd amdanoch, ac mae colled fawr am eich ffyddlondeb yng ngwasanaethau Capel Coch.

JUDO: Llongyfarchiadau i Gillian Evans, Isallt, Stryd Newton am lwyddo i ennill y Tlws Aur ym mhencampwriaeth Judo Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mae Colwyn yn ddiweddar. Aelod o Glwb Bushido Bangor yw Gillian ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail.

Campus iawn Gillian – tybiaf mai chwi yw'r unig ferch sydd wedi ennill tlws o unrhyw fath yn ardal Llanberis. Oes yna enethod eraill o Ysgol Brynrefail yn dilyn eich camrau? Daliwch ati Gillian.



SUL Y COFIO: Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa ger y Gofgolofn fore Sul y Cofio dan arweiniad y Parch Bayley Hughes, ac aelodau o'r Seindorf leol yn cynorthwyo. Cyflwynwyd y torchau popi gan aelodau o'r gwahanol fudiadau: Y Lleng Brydeinig, Cyngor Cymuned Llanberis; Cadlanciau'r Fyddin, Ambiwlans Sant Ioan, Gwasanaeth Tân Llanberis, Y Seindorf, Clwb Anabl Eryri, Clwb yr Henoed, Pwyllgor y Carnifal, Pwyllgor Pêl-droed, Llanberis, Y Blaid Lafur, Undeb y Mamau, Clwb y Mamau Ifainc, Sefydliad y Merched, Brownies a'r Guides, Mrs Squires, Mrs Jackson, Eurwyn Roberts, Paul Roberts ac Iona Roberts.

GYRFA CHWIST: Ers rhai blynyddoedd bellach mae Pwyllgor y Clwb Pêl-droed wedi cynnal gyrfa chwist Nadolig yn y Ganolfan. Eleni maent yn cynnal yr Yrfa Chwist Nadolig yng **Ngwesty'r Dolbadarn** ar **19 o Ragfyr am 7.30 p.m.** Mae cyw iâr a sglodion ar gael i bawb a'i dymunai.

CASGLU ARIAN: Ar noson Calan Gaeaf aeth criw o blant o gwmpas y pentref wedi gwisgo i fyny. Casglont £6.30, a'i roi tuag at gronfa'r Arennau. Y plant oedd Simon Williams, Julie a Nicola Baylis, Eilian a Llion Roberts, Ruth Cousins a Christopher Hughes. Da iawn chwi blant!

## YMDDEOL O'R SIOP



*Mr a Mrs E. Wilson Hughes, Cymric House, Llanberis cyn ymddeol ar ôl 21 mlynedd o gadw'r siop. Dymuniadau gorau iddynt.*

BABI NEWYDD: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Whitaker, 43 Stryd Newton ar enedigaeth mab bychan ar ddechrau'r mis – Cadell Frawn, brawd bach newydd i Heledd Dôn, Aeddan Math a Ffreuer Hafren.

PRIODAS: Ar y 29ain o Fedi yn Eglwys Sant Faith a Sant Lawrence, Harbone ger Birmingham trefnwyd priodas Iorwerth, mab y diweddar Ringyll Emyr Jones, Cil Melyn, Stryd Warden a Mrs Mariei Jones, ei briod. Wedi colli ei phriod arhosodd ei weddw yn yr ardal am rai blynyddoedd a 'lorrie' (fel yr adwenir ef yma) yn galw gartref i weld ei fam mor aml ag y gallai. Ym 1972 symudodd y fam i fyw at 'lorrie' i Firmingham, a deuai'r ddau yn ôl i Lanberis yn ystod bob haf am ychydig ddyddiau. Rhyw flwyddyn yn ôl collodd lorrie ei fam, ond daliodd i gadw cysylltiad â ffrindiau ei fam yn yr ardal. Bu Mr a Mrs Gwilym Owen, Stryd Yankee yn Harbone yn y gwasanaeth priodas. Dymunir bob llwyddiant a gwir hapusrwydd a hir oes i lorrie a'i briod.

PLAID CYMRU: Cynhelir Bore Coffi ddydd Sadwrn, Rhagfyr 10 yn y **Llyfrgell Newydd**, Caernarfon o 10.00 hyd 12.00 dan nawdd Pwyllgor Merched Arfon. Bydd stondinau cacennau, nwyddau ac anrhegion Nadolig. Bydd Mrs Anne Parry, Llys Orwig yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniad at yr achlysur.

NEWYDDION O YSGOL DOLBADARN

FFARWELIO: Ar ddiwedd Hydref bu'n rhaid ffarwelio â tair o ferched y gegin, sef Mrs Janet Thomas, Mrs Olga Williams a Mrs Dorothy Williams. Anrhegwyd y merched am eu gwasanaeth teilwng i'r ysgol dros y blynyddoedd a dymunodd y prifathro bob llwyddiant ac hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

PRESENOLDEB CYSON: Derbyniodd y disgyblion a ganlyn dystysgrifau am eu presenoldeb di-fwlch drwy'r flwyddyn addysgol 1982-83: Euron, Thomas, Julie Wynn Baylis, Bethan Wyn Owen, David Anthony Roberts, Christian John Carr, Manon Lloyd Williams, Arfon Wyn Owen, Llifon Arwyn Foulkes, Kevin Owen Edwards, Lyn Davies, Sharon Wyn Roberts.

GWAELEDD: Drwg gennym ddeall am waeledd Mrs A.E. Owen, gweinyddes feithrin. Dymunir iddi adferiad llwyr a buan. Hithau hefyd Mrs S.B. Thomas, athrawes, a fu dan driniaeth lawfeddygol mewn ysbyty ym Mangor. Balch iawn ydym o ddeall fod Mrs Nellie Davies, glanhawraig yn gwella yn foddhaol yn dilyn triniaeth lawfeddygol.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Iwan Roberts ar ei apwyntiad yn brifathro Ysgol Gynradd Llangybi, Eifionydd. Dymunir pob bendith a llwyddiant iddo ef a'r teulu ym mro y Lôn Goed.

CROESO: yn ôl i Mrs C.J. Roberts, athrawes, yn dilyn cyfnod o absenoldeb mamolaeth. Llongyfarchiadau iddi hi a'i phriod ar enedigaeth eu mab, Aled.

Croeso hefyd i Mr Teifion Thomas, Caernarfon fel athro yn yr ysgol. Mawr hyderwn y bydd yn hapus a chartrefol yn ein plith.

CHWARAEON: Yn erbyn Ysgol Gynradd y Bontnewydd colli fu hanes Tîm Pêl-droed yr Ysgol ond llwyddodd y Tîm Pêl-rwyd i ennill. Yna, mewn gêm yn erbyn Ysgol y Santes Helen, Caernarfon, ennill fu hanes y tîm Pêl-rwyd unwaith yn rhagor. Bu'r ddau dîm yn chwarae yn erbyn Ysgol Gynradd Llanrug, ac ennill fu hanes y genethod a'r bechgyn. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm a'u hyfforddwyr sef Mrs Eirlys Pierce a Mr Teifion Thomas.

NOFIO: Llongyfarchiadau i Trystan Thomas, Tŷ'r Ysgol ar ennill medal bres ac arian ym Mhwll Nofio Bangor.

TAITH GERDDED NODDEDIG: Dydd Mawrth, Tachwedd 8 aeth plant yr Adran Iau a'u hathrawon ar daith gerdded a chafwyd glaw sydyn tra 'roedd y fintai ar ochrau Clegir. Serch hynny, yr oedd hi'n werth yr ymdrech oherwydd codwyd y swm o £423.37 i Gronfa Ariannol yr Ysgol. Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb a wnaeth yr achlysur yn un mor fuddiol a llwyddiannus.

GWERTHU PABI: Eleni eto, gwerthwyd papiau yn yr ysgol a'r tro hwn gwnaed elw o £19.34. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

DYDDIADU I'W COFIO: Rhagfyr 1: Ymweliad Adran y Babanod â Phantomeim yng Ngholeg Technegol Gwynedd, Bangor. Rhagfyr 8: Noson Agored o 6 pm i 8 pm. Rhagfyr 14: Parti Nadolig y Babanod. Rhagfyr 15: Parti Nadolig Plant yr Adran Gynradd. Rhagfyr 15: Disco'r Urdd yn Neuadd yr Ysgol am 6 pm. Rhagfyr 18: Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau yn Eglwys Sant Padarn am 5.30 pm. Rhagfyr 22: Yr Ysgol yn cau am Wyliau'r Nadolig. Ionawr 9, 1984: Yr ysgol yn ail agor yn dilyn gwyliau'r Nadolig.

## CEUNANT

MARW: Yn Ysbyty Dewi Sant ar Hydref 6 bu farw Annie Laura Parry, gweddw'r diweddar Ifan Parry, Bodafon. Roedd Mrs Parry yn enedigol o Fethel. Bu'n athrawes mewn amryw o ysgolion cynradd yn yr hen sir Gaernarfon. Roedd hefyd yn aelod selog a gweithgar yng Nghapel Ceunant. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll.

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn. (Waunfawr 626)**

YR EGLWYS: Cynhelir Ffair Nadolig, nos Wener, Rhagfyr 9 am 6.30 o'r gloch. Agorir y noson gan Miss E. Vaughan Davies. Stondinau o bob math. Tâl mynediad: 20c a 5c i blant. Croeso cynnes i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r Sefydliad yn Festri Capel Croesywaun nos Iau, Tachwedd 3 gyda Mrs C.A. Jones y llywydd yn y gadair.

Cydymdeimlodd â Mrs Morfa Evans yn ei phrofedigaeth o golli chwaer, ac estynnodd adferiad buan i Mr Wyn Jones, gŵr yr ysgrifenyddes, sydd yn yr ysbyty. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r llythyr misol a'u trafod.

Darllenwyd y datganiad ariannol gan y trysorydd, a'r adroddiad blynyddol gan yr is-ysgrifennydd.

Rhoddodd y llywydd ei haraith blynyddol ac estynnodd groeso i Mrs Lilian Pritchard o Borthmadog, y Trefnydd Gwirfoddol.

Cafwyd sgwrs fechan gan Mrs Pritchard ar 'Hyrwyddo'r Sefydliad'.

Diolchodd Mrs Nesfield iddi ac i'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Enillodd Mrs Mottram y raffl a roddwyd gan Mrs Peggy Jones. Ar ôl y rhan ffurfiol o'r cyfarfod cafwyd swper, wedi ei drefnu gan rai o aelodau'r pwyllgor, i ddathlu pen-blwydd Miss M. Roberts, Glan Aber yn 80 oed. Cyflwynwyd blanhigyn iddi a cherdyn wedi ei lofnodi gan yr aelodau yn bresennol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf fydd yn y Festri nos Iau, Rhagfyr 1 pan fydd Mrs Pat Jones, Brynrefail yn rhoi sgwrs ar Addurno Cacennau.

Bydd croeso cynnes i unrhyw un a fuasai'n hoffi dod i'r cyfarfod.

Y GANOLFAN: Bydd Theatr Bara Caws yn perfformio'r ddrama 'Chwarae Plant' yn Neuadd yr Eglwys ar nos Fawrth, Rhagfyr 13 – yr elw i'r Ganolfan ac Aelwyd yr Urdd.

Bydd Siôn Corn a'r côr carolwyr yn mynd o gwmpas y pentre ar nos Fawrth, Rhagfyr 20 gan orffen mewn noson gymdeithasol ym Mryneirian.

Diolch i bawb am gefnogi'r noson wych a gafwyd ym Mryneirian yng nghwmni Dylan Parry, Traed Wadin. Gwnaed elw o £100.

YR URDD: Cawsom noson Guto Ffowc lwyddiannus iawn, diolch i'r dynion a fu wrthi'n tanio'r tân gwyllt, ac yn fwyaf arbennig i Mr a Mrs Griffiths, Y Llythyrdy am eu caredigrwydd.

Nos Fercher, Tachwedd 16 daeth Dewi Lake, y swyddog datblygu newydd atom a chawsom gemau.

Yn anffodus, collodd tîm 5-bob-ochr Waunfawr yn erbyn tîm Llanfairfechan yng nghystadlaethau'r Urdd.

Nos Fercher, Rhagfyr 7 bydd yr Urdd yn cynnal noson o ganu carolau yng nghwmni Dafydd Iwan yn Neuadd yr Eglwys rhwng 6.30 a 7.30. Hefyd bydd paned a 'mins pei' i bawb. Mae croeso i bawb ddod yno a gobeithio y cawn eich cefnogaeth.

CLWB GWYRFAI: Hydref 20: Cynhaliwyd cyfarfod y Clwb o dan lywyddiaeth y Ficer, y Parch Trefor Jones. Croesawodd Mr Jones Miss Mat Pritchard, Caernarfon a chafwyd sgwrs ddifyr ganddi yn dilyn achau teulu Glynllifon o'r nawfed ganrif hyd y bedwaredd ar bymtheg. Teulu Cymraeg yn hanu o Rhodri Fawr a'r cyfenw Glyn oeddynt y pryd hynny.

Neilltuwyd rhan olaf y sgwrs i hanes rhamantus un o Arglwyddesau Niwbwrch – sef Stella Maria Petronella – Eidales 13 oed a briododd Thomas Wyn ym 1786. Roedd tystiolaeth gref ei bod yn hanu o deulu brenhinol Ffrainc.

Roedd yn amlwg fod gwaith ymchwil manwl wedi ei baratoi gan Miss Pritchard a diolchwyd yn gynnes iddi gan Mrs Morgan Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Pritchard, Tref Eilian a enillwyd gan Mr Williams, Gwynfa. Yn gyfrifol am y te roedd Mrs Lewis, Tŷ'r Ysgoldy, Mrs Roberts, Bod Idris a Miss Roberts, Glan Aber. Mae aelodau'r Clwb wedi cael gwahoddiad gan HTV i ymweld â'i stiwdio yn yr Wyddgrug ar Ragfyr 20 i weld recordiad o'r gêm deledu boblogaidd 'Siôn a Siân'. Enwau rhai yn awyddus i fynd i'w rhoi i Mrs Parry Williams, Gwynfa cyn gynted â phosib.

Tachwedd 3: Yn absenoldeb anorfod y Parch Trefor Jones llywyddwyd gan Mrs N. Miles. Cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Mrs Smith, Tan y Marian a fu farw mewn ysbyty yn Coventry.

Pleser oedd croesawu Mrs Sophie Parry a chafwyd sgwrs ddifyr ac addysgol ar ddodrefn a llestri henafol. Diolchwyd iddi gan Mrs Jones-Evans, Pennant. Enillwyd y raffl gan Mrs Owen, Dinas – rhodd Mr Overy. Yn gyfrifol am y te oedd Mrs Faulkener, Mr Mottram a Mrs Nesfield.

Dr R. Williams, ein meddyg teuluol oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod y Clwb ar Dachwedd 17. Cafwyd sgwrs amserol a chartrefol ganddo ar y datblygiadau mewn meddygaeth, yn arbennig rhai sydd yn ymwneud â'r henoed.

Mrs Parry Williams oedd yn llywyddu yn absenoldeb y Ficer. Diolchwyd i Dr Williams gan yr ysgrifenyddes, Mrs Idris Jones. Enillwyd y raffl gan Mr R. Jones, Garnedd. Rhoddodd Mrs Parry Williams fanylion y daith i'r Wyddgrug ar Ragfyr 20 yn cychwyn am 10 y bore.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 1 pan fydd Mr Rhodri Prys Jones yn ein hannerch. Cynhelir ein carolau Nadolig efo plant yr ysgol gynradd yn Neuadd yr Eglwys ar Ragfyr 15, y trefniant gan y Parch Trefor Jones.

CLWB 100: Dyma enwau'r rhai buddugol am fis Tachwedd: 1. D.L. Davies, Nant y Mynydd, 2. Gwynn Davies, Bryn Eithin, 3. Mrs Mwynwen Jones, 2 Tref Eilian.

CRONFA GANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref: 1. £40, Gareth Jones, Glyn Cerig, 2. £25, Alun Williams, Fron Goediog, 3. £10, Mary Williams, 6 Dol Erddi.

Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd:
1. £40, Haydn Jones, Rhandir Mwyn, 2. £25, E.V. Hughes, Cae Main, 3. £10, R.H. Jones, Gardden.

DIOLCH: Dymuna Pearl a'r teulu, Parc ddiolch i bawb am bob caredigrwydd, cardiau, anrhegion a phob galwad teliffon a dderbyniwyd tra yn yr ysbyty.

YSGOL FEITHRIN: Bore paned a 'mins peis' bore dydd Iau, Rhagfyr 15 am 10 o'r gloch. Tâl mynediad 20c. Stondinau a raffl. Croeso cynnes i bawb.

ADREF O'R YSBYTY: Mae llawer o drigolion y pentref a fu'n cwyno mewn ysbytai yn ddiweddar yn awr wedi dychwelyd gartref, sef Mrs R.E. Jones, Bryn Derwen, Kim Turner, Collfryn, Mrs Walker, Bryn Golau, Mr Wyn Jones, Bron Eifion, Mrs Ann Morris, Ael y Bryn, Mrs M. Williams, Bro Waun, Mrs Grace Dawson, Bro Waun, Mrs Mavis Allen, Pen y Bont, Mr Dic Rowlands, Bryn Golau a Mrs Jones, Llwyn Onn. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt i gyd.

*(parhad ar dudalen 22)*

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

**'Rwy'n siŵr fy mod yn mynegi teimlad Eglwys Pontrhythallt a'r ardal a chylch eang yn y cyfundeb wrth longyfarch Mr D. Glynne Owen, Llys Eryri, Llanrug ar gyrraedd ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar Dachwedd 15.**

Ganed Mr Glynne Owen yng Nghonwy, mab y diweddar Mr a Mrs David Owen. Priododd Miss Menai Hughes, merch y diweddar Mr a Mrs David Hughes, Llys Eryri yng Nghapel Pontrhythallt, y diwrnod olaf o flwyddyn 1928. Ganed iddynt ddau fab, sef y Parch G. Tudor Owen, sydd heddiw yn weindigo ym Methel, Birmingham, a'r Parch D.H. Owen, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyfundeb ac yn byw yng Nghaerdydd.

Daeth ef a'i briod a'u dau fab o Gonwy i gartrefu i Lys Eryri ym 1939 ac ymaelodi ym Mhontrhythallt. Dewiswyd ef yn flaenor ym 1949. Bu hefyd yn Llywydd Henaduriaeth Arfon ac yn aelod ffyddlon o Bwyllgorau'r Henaduriaeth.

Cafodd brofedigaeth drist iawn pan gollodd ei briod ym mis Mawrth 1977. Yr oedd y ddiweddar Mrs Owen yn chwaer i'r diweddar Barch H.D. Hughes, Caergybi, sef tad yr Arglwydd Cledwyn Hughes o Benrhos.

Gwasanaethodd yn y Fyddin yn yr Iseldiroedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd 19411-45.

Y mae Mr Glynne Owen wedi dangos i ni Ogoniant yr Efengyl a'r Crist Bendigedig yn ei fywyd ac yn ei bregethau. Bu'n athro yn yr Ysgol Sul ac yn ysgrifennydd yr eglwys ar hyd y blynyddoedd.

Dymunwn iddo lawer iawn o flynyddoedd eto i barhau yn y gwaith sydd wrth ei fodd.



**Cyfarchion Pen-blwydd i Mr Glynne Owen**

Eistedd i fyfyrio wneuthum
Flaenor hoff
Am y teithio cyflym, cyflym,
Flaenor hoff.
Aros mae ein heirdd flynyddoedd
Y clogwyni a'r dyffrynnoedd
Ninnau'n myned am byth bythoedd
Flaenor hoff.

Camfa arall ddaeth i'ch cwrddyd
Flaenor hoff.
Ond mae Gwynfyd yn eich bywyd,
Flaenor hoff.
Llwyr ymroddwch trwy eich doniau,
I wasanaethu Duw ein Tadau,
Pwy a ŵyr faint eich aberthau
Flaenor Hoff.

Llawer cymwynas wnaethoch inni
Flaenor hoff
Cawsom Bregeth, Mawl a Gweddi
Flaenor hoff.
Mae i'r ardal heddiw eich clodydd
Caredigrwydd yw eich defnydd,
Rhaid eich bod yn hyfryd ddedwydd
Flaenor hoff.

(Efelychiad)

# CHWILOTA

*(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgyrn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)*

**Daeth ymateb i'r cais y mis diwethaf am wybodaeth ynglŷn ag enwau lleoedd yn yr ardal. Mae'n amlwg fod llawer o wybodaeth am fannau ym mro'r Eco yn dal ar gof a chadw gan bobl â chysylltiadau â'r fro.**

Roedd llythyr Mrs Buddug Griffiths o Lanfaircaereinion yn taflu gwybodaeth ar yr enw "Gwerglodd y Merched" ar dir Glynrhonwy. Roedd y wybodaeth ar gael mewn dyddlyfr o eiddo ei thaid – Thomas D. Jones o'r Clegir. Yn y dyddlyfr mae cofnod am blant Owen Jones, Glynrhonwy, sef John Owen – "a aeth i'r Ddôl Tŷ Du"; Dafydd Owen – "oedd yn dal y Glyn i gyd: ymadawodd ac adeiladu Tŷ Canol"; Ann Owen – "a briododd Weldyn" a Margaret Owen – "hen ferch". (Roedd y mab hynaf, John Owen, yn daid i daid Mrs Griffith!) Yn dilyn cofnodi enwau'r plant, ceir y cofnod hwn:

"I'r ddwy chwaer hyn, Ann a Margaret, yr adeiladwyd Tŷ Uchaf y Glyn. I'r rhain y gadawyd y Dyffryn sydd o'r tu dehau i'r Glyn: yr enw 'Gweirglodd Merched'."

Tua chan mlynedd yn ôl yr ysgrifennwyd y nodiadau hyn gan Thomas D. Jones, ond yr oedd yn sôn am bobl a fu byw gan mlynedd arall ynghynt. Bûm yn chwilio i mewn i hanes rhai o'r bobl uchod, a dyma beth o'r wybodaeth:

Bu Owen Jones, Glynrhonwy, farw yn 1773, felly mae'n amlwg fod yr enw "Gweirglodd y Merched" yn cael ei ddefnyddio y pryd hwnnw. Y John Owen, y mab hynaf oedd tad Dafydd John Owens, Bryn Clyd, Clegir – sef gŵr Siân Dafydd (gweler ei hanes mewn erthygl arall yn y rhifyn hwn).

Ganed Dafydd Owen (yr ail fab) yn 1732 a phriododd ag Elizabeth Jones (1752-1829) merch John Williams a Jane o Dyddyn Ellen, Llanrug. Ganed iddynt un ferch, Catherine. Priododd hithau â David Owen o Dy'n y Coed, Llanrug yn 1796, a ganed iddynt 5 o enethod. Roeddynt yn byw yn yr Erw, Llanrug. Bu eu hail ferch, Mary, farw yn Nhŷ Canol, Cwm-y-glo, sef cartref ei thaid a'i nain wedi iddynt symud yno o Glynrhonwy. Yn Nhŷ Canol y bu Dafydd Owen farw yn 1812, ac fe'i disgrifir fel "yeoman". Yn Nhŷ Canol hefyd y bu ei weddw Elisabeth farw ac fe'i disgrifir hi fel "widow of David Owen, formerly tenant of Glyn Rhonwy".

Priododd Ann, y ferch hynaf â Thomas Wheldon yn Eglwys Llanrug ym 1777. Bu Margaret, y chwaer arall farw'n y Bwlch, Cwm-y-glo ym 1873.

Tenant oedd David Owen ar fferm Glynrhonwy. Y perchennog oedd Arglwydd Newborough. Yng nghofnodion Mapiau'r Degwm am blwyf Llanrug ym 1839 mae rhestr o enwau caeau fferm Glynrhonwy. Yn eu plith mae'r enw "Werglodd y merched". Fe'i disgrifir fel "meadow" ac yr oedd ychydig dros dair acer o faint. Gwerth trethiannol y 'werglodd' oedd dau swllt.

Tenant Glynrhonwy yr adeg hon oedd Thomas Jones, ac yr oedd wedi bod yn denant yno o leiaf ers 1814. Roedd Dafydd Owen wedi symud o Glynrhonwy erbyn 1812. Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r denantiaeth. Ai symud oddi yno o'i ddewis ei hun a wnaeth Dafydd Owen, ynteu cael ei orfodi i symud gan ei feistr tir?

Mae Mrs Griffiths yn codi sgwarnog ddiddorol arall hefyd, trwy ofyn, ble mae lle o'r enw "Llety'r Gwrachod"? Yn ôl dyddlyfr ei thaid fe'i hadeiladwyd ym 1840. Tybia Mrs Griffith ei fod yng nghyffiniau'r Clegir.

Diolch hefyd i Mr Gwilym Roberts, Llanberis am ei sylw ar "Gafl y Widdan" ar Foel Eilio. Dywed fod corlannau ar lethrau Moel Eilio yn cael eu galw'n "Corlannau Aflwyddan'. Mae'r enw'n awgrymu felly mai dyma "Afl yr Widdan".


## CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR, CEUNANT, TAN-Y-COED a BETWS GARMON — **GARETH JONES**, Glyn Ceris, Waunfawr. (Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS, CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL a DINORWIG — **WILLIAM ROBERTS,** Hyfrydle Road, Capel Coch, Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN, SEION, LLANDDEINIOLEN, TREGARTH, M. LLANDEGAI — **JOHN R. JONES**, Clarke Terrace, Ffordd Llanberis, Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW' YNGLŶN Â'CH HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR EICH AELWYD

**Prudential**



## AR WERTH

SINC (gwyrdd golau) ynghyd â'r tapiau, etc. – £25
**Bwrdd Gwisgo – £50.**
*Caernarfon 3776*

**Beic 'Raleigh Small Rider'** yn cynnwys 'stabilizers'. **£25.** Ffôn: Caernarfon 76063.
**2 Racer, 5 gear.**
**1 Beic Dyn,** gear sengal.
**Beic plentyn**
*Portdinorwic — 670861*



**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**
(Richard a Meirwen Thomas)
**Llanrug**
*Ffôn: CAERNARFON 4652*

# BETHEL

**Gohebydd – Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

YR YSGOL FEITHRIN: Erbyn hyn mae 16 o ddisgyblion yn dod i'r Ysgol Feithrin bob bore Llun a bore Iau, ac yn ôl y wên sydd ar wyneb pob un maent wrth eu bodd gydg 'Anti Lynnwen' ac 'Anti Rita'. Diolch yn fawr iawn i Mrs Beryl Jones a Mrs Glenys Griffiths am eu hymdrechion i godi arian i'r ysgol ac i'r Cyngor Cymdeithas am eu cefnogaeth hael.

Cynhelir Bore Coffi yn y Neuadd ar fore dydd Iau, Rhagfyr 8 rhwng 10.30 a 11.30 pan fydd cyfle i weld y plant yn rhoi cyngerdd Nadolig byr.

MERCHED Y WAWR: Roedd nifer o aelodau wedi dod i'r ysgol ar nos Fercher, Tachwedd 9 i wrando ar Dr Dafydd Roberts, Curiadur Amgueddfa Lechi Llanberis, yn darlithio ar y 'Chwarelwr a'i Gymdeithas'. Cafwyd darlith ddiddorol ganddo a defnyddiodd nifer o enghreifftiau i ddangos lle'r chwarelwr yn ei gymdeithas. Diolchwyd yn ffurfiol iddo ar ran y gangen gan Mrs Mair Read.

Gwestwragedd y noson oedd Mrs Nan Rowlands, Mrs Eirlys Williams a Mrs Pat Millican. Enillwyd y raffl gan Mrs Hughes, 34 Bro Rhos.

Y mis nesaf ar Ragfyr 14 cynhelir y cinio Nadolig yng ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol Hydref 20 gyda Mrs Joyce Jones, Is-lywydd yn y gadair. Y wraig wadd oedd Mrs Pat Jones a'i chwaer o Frynrefail, pryd cafwyd arddangosfa coginio. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Arad. Y gwestwragedd oedd Mrs Betty Jones a Mrs Edith Humphreys. Llongyfarchwyd Mrs Bessie Ellis ar fod yn nain unwaith eto. Codwyd Mrs Bessie Ellis i gynrychioli'r gangen ar bwyllgor y neuadd. Enillwyd y raffl gan Mrs Sally Hughes, 35 Bro Rhos.

'Roedd cyfarfod mis Tachwedd yn yr ysgol nos Iau y 17fed dan ofal Mrs Vera Hughes, V.G.O. Bethesda. Darllenwyd cofnodion gweithgareddau'r flwyddyn gan Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd, yr ysgrifenyddes a Mrs Mary Williams, Cilgwyn. Pasiwyd drwy fwyafrif i gario 'mlaen efo' gangen y flwyddyn nesaf ac i geisio cael swyddogion newydd. Y gwestwragedd oedd Mrs Joan Foulkes, 6 Tan y Cae a Mrs Mary Williams, 31 Bro Rhos a diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs Ellen Jones, Awel y Grug.

YR URDD: Aeth nifer dda o blant yr Urdd o gwmpas y pentref yn ddiweddar i gasglu arian i'r Urdd. Dyma restr o'r casglwyr a faint o arian a gasglwyd:

Carys Owen a Sarah Jane Green: £1.82, Ceri Hughes a Siân Llewelyn Jones: £3.11; Manon Elis, Ruth Parry a Sioned M. Owen: £5.50, Menna D. Williams, Rhian Hughes a Gwen Jones: £4.10, Angharad Price, Angharad Elis ac Eirlys Jones: £8.25, Sharon Wyn Ellis a Dylan Wyn Jones: £3.31, Ceryl a Llinos Roberts, Julie Ann a Non Jones: £3.41, Lyn Hardwick, Haf Owen a Mandy Jones: £1.84. Cyfanswm – £31.34.

DIOLCH: Dymuna Mabel ac Alun Jones, Eithinog ddiolch yn fawr am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Gwenan Heledd.

LLONGYFARCHIADAU: i Clive, mab Mr a Mrs Eifion Roberts, 21 Bro Rhos am ennill ei fedal aur ym mhwll nofio Caernarfon. Mae Clive yn ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon; hefyd i Gwen Jones, Fachell, Llanddeiniolen ar ennill croesair y cylchgrawn yr Urdd 'Cymru'r Plant' yn ddiweddar, enillodd Gwen docyn llyfr gwerth £1.50.

PWYLLGOR Y NEUADD: Siomedig iawn oedd yr ymateb i'r gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Lun, Hydref 31. Ni ddaeth neb i'r cyfarfod ar wahân i aelodau'r pwyllgor. Ai arwydd o fodlonrwydd ynteu difaterwch?

Yn y cyfarfod cafwyd trafodaeth frwd ar gyflwr y neuadd a phenderfynwyd rhoi cais unwaith eto i lanhau, twtio a pheintio. Erbyn hyn mae'r neuadd yn edrych yn llawer gwell a mawr yw ein diolch i aelodau'r pwyllgor sydd wedi rhoi nosweithiau o waith. Gobeithio yn wir y caiff yr adeilad barch wedi'r gwaith.

Dewiswyd Mr Goronwy Jones yn llywydd y pwyllgor am flwyddyn arall a Mr Seiriol Owen yn drysorydd. Ymddiswyddodd Mr Geraint Elis o'i swydd fel ysgrifennydd ar ôl gweithredu am wyth mlynedd a dewiswyd Mrs Mair Read, Llwydiarth i'w olynu. O hyn ymlaen dylid gysylltu â Mrs Read os am logi'r neuadd.

PWYLLGOR Y CARNIFAL: Nos Lun, Tachwedd 21 cyfarfu pwyllgor y Carnifal yn y Neuadd. Cafwyd adroddiad ariannol gan y Trysorydd, Mrs Ann Hughes, Bron Gwynedd. Er bod mwy o arian wedi dod i law eleni roedd y costau hefyd yn sylweddol uwch. Penderfynwyd peidio rhoi rhodd i wahanol fudiadau eleni ond cyfrannwyd £175 i'r neuadd gan fod pawb yn y pentref yn cael budd o wella cyfleusterau'r neuadd.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus i ddechrau trefnu Carnifal 1984 tua diwedd mis Ionawr.

LLONGYFARCHIADAU: I Susan Bailey Anthone a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Dachwedd 29.

BEDYDDIO: Ddydd Sul, Tachwedd 27 bedyddiwyd dau blentyn gan y Parch W.R. Williams yn oedfa'r bore yn y Cysegr – Betsan Fflur, merch Mr a Mrs Geraint Jones, Wrecsam, wyres Mr a Mrs Hughes, 6 Bro Rhos; ac yn y cartref Glaslyn bedyddiwyd Gavin, mab Mr a Mrs Dewi Roberts.

CASGLIAD UGANDA: Cynhelir gwasanaeth Nadolig y Plant yn y Cysegr brynhawn Sul Rhagfyr 18. Yn y cyfarfod fe wneir casgliad at helpu pobl sy'n newynu yn Uganda. Nid oes llawer o sôn am Uganda y dyddiau yma ond mae'n un o wledydd Affrica sy'n dioddef o newyn ers blynyddoedd ac yn haeddu pob help a allwn ei roi. Gobeithio y ceir casgliad teilwng.

CYNGOR CYMUNED: Yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen nos Fawrth, Tachwedd 8 ystyriwyd ceisiadau am roddion. Penderfynwyd rhoi £75 i'r Neuadd a £50 i'r Ysgol Feithrin. Penderfynwyd hefyd y byddai cysgodfan yn cael ei godi ar gyfer bystop dros y ffordd â Minffordd, rwy'n siŵr y bydd pawb sy'n disgwyl bws yn y llecyn agored yma yn falch iawn.


Wil a Val Guy

**TREFLYN STORES**

**BETHEL**

**Ffôn: Y Felinheli 670237**

**Stoc helaeth o Ddillad Plant** **HAPPITOTS ac ati**

* Cofiwch hefyd ein dewis ardderchog arferol o anrhegion Nadolig, Teganau, Diodydd, Melysion, Edafedd, Bwydydd etc.

* SNWCER! Dewch yma am eich sialc, tips, ciws – RILEY a byrddau hefyd os dymunwch.


# DINORWIG

**Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)**

Y GYMDEITHAS: Bellach fe wawriodd tymor 1983-84 y cymdeithasau diwylliadol yma yn Ninorwig fe ymdrechwyd i ddarparu er adeiladaeth yn ogystal ag er adloniant. Fe anelwyd felly, at gael cydbwysedd rhwng y trwm a'r ysgafn, a chreu digon o ddiddordeb i gymell yr ardalwyr i beidio crwydro i ardaloedd eraill i foddhau eu disgwyliadau. Er nad ein prif amcan yw codi arian, eto mae'n rhaid cydnabod nad ydym am i'r safle ariannol beri prydlon i'r swyddogion am y tymor.

Fe agorwyd y tymor eleni ar nos Iau, Hydref 20 yn y Ganolfan er i ni gael Noson Goffi ddiwedd mis Medi. Roedd Mr Evan Bryn Roberts a'i gyfaill yn cyfrannu eitemau – yn unawdau a deuawdau, a'r gynulleidfa'n cyd-ganu caneuon ysgafn. Fe gyflwynwyd yr eistemau yn ddeheuig iawn gan Miss Annette Roberts, Tŷ'r Ysgol gyda Miss Nia Wyn Davies, Swyddfa'r Post, Deiniolen yn adrodd. Fe ategwyd ein dyheadau ninnau am dywydd yn ystod y tymor yn ei sylwadau gan y cadeirydd ar gyfer y noson – y Parch William John Lewis, Amlwch – yntau, wrth gwrs, yn enedigol o Ddinorwig. Fe gafwyd deuawd boblogaidd gan Mrs Beti Lloyd Roberts, llywydd y tymor, a Mr Evan Bryn Roberts, ac fe rannwyd y cyfeilio ar y piano rhwng y ddwy chwaer, Annette ac Olwen Roberts.

Mae amryw yr ydym yn ddyledus iawn iddynt am nifer o gymwynasau, a'u haelioni hwy a rydd hyder i ni i fod yn ffyddiog ddisgwylgar i'r dyfodol gobeithiol.

David John Thomas
Ysgrifennydd y Gymdeithas

DOSBARTH CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR: Nos Iau, Hydref 27 bu'r dosbarth olaf y tymor eleni dan nawdd yr uchod. Yr athro oedd Mr Ifor Baines, B.A., Penygroes. Maes astudiaeth y dosbarth oedd 'Egwyl ym Myd Llên'. Cafwyd dosbarth llewyrchus. Bwriedir cynnal dosbarth eto'r flwyddyn nesaf. I derfynu'r dosbarth yn swyddogol aethpwyd i Goleg Pencraig Llangefni am ginio. Mwynhawyd y wledd yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Abram Jones, Foel ar fod yn daid a nain unwaith eto; hefyd i Mrs Kate Jones, Foel ar fod yn hen-nain unwaith eto.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Nos Iau, Tachwedd 9 yn y Ganolfan cafwyd sgwrs a ffilm gan Mr A. Evans, Llanrug ar Ffynhonnau a Dulliau i'w Haddurno. Dangoswyd trwy'r ffil sut y defnyddid blodau a gwair a phethau cyffelyb i addurno'r ffynhonnau. Llywydd y noson oedd Mr David J. Thomas, Ysgrifennydd y Gymdeithas. Talwyd diolch i'r siaradwr gan y Ficer, y Parch Aled L. Edwards.

Nos Iau, Tachwedd 17 yn y Ganolfan, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs E.T. Roberts, Bangor am atgofion gwraig Ficer yng ngwahanol blwyfi. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr, talwyd diolchiadau i'r siaradwr gan y Parch Ifor L. Williams, Bangor a Mr Hugh Thomas, 1O'R YSBYTY: Croesawn Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir gartref o'r ysbyty wedi llawdriniaeth feddygol ym Môn ac Arfon. Adferiad buan a llwyr iddo.

LLONGYFARCHIADAU: i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen: Aaron a Donna Jones, 9 Bro Elidir; Sara Wood, Fron Heulog; Anna Taylor, Bron Fuches; Mrs Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian; Miss Annette B. Roberts a Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Mrs Mary E. Jones a Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog.

**YR URDD YN TORRI TIR NEWYDD**

Mae Urdd Gobaith Cymru am ehangu eu darpariaeth ar gyfer yr anabl. Ar hyn o bryd mae'r Mudiad yn cynnal wythnos o wyliau i'r anabl ar ddiwedd yr haf yng Ngwersyll Llangrannog.

Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn yr Wyddgrug y flwyddyn nesaf bydd tair cystadleuaeth newydd sbon ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Arbennig Addysgol Is-Normal. Gwnaed y ddarpariaeth hon ar gais nifer fawr o'r Ysgolion Arbennig. Bydd dwy o'r cystadlaethau yn yr Adran Gwaith Cartref – sef cywaith (*collage*) i ddisgyblion dan 12 oed a thros 12 oed. Y gystadleuaeth lwyfan fydd i grŵp cerddoriaeth greadigol i gyflwyno dehongliad lleisiol ac offerynnol am bum munud ar y testun 'Y Storm'.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

**Dawns:**
Yn ystod y mis daeth Cwmni Dawns Gwylan i roi perfformiad yn yr ysgol. Yn ystod y bore buont yn hyfforddi rhai o'r disgyblion ac yn eu cynghori ynglŷn â phob math o ddawnsio.

**YR URDD:**
Cynhaliwyd cwis gwybodaeth gyffredinol yng nghyfarfod yr Urdd ar ddechrau'r mis. Trefnwyd y noson gan Mr Meirion Wyn Jones, a'r enillwyr oedd tîm dosbarthiadau 3 a 4. Cafwyd hwyl fawr yno, a diolch i Mr Meirion 'Magnus Magnuson' Jones am ei gymorth.

**CYNHADLEDD GYRFAOEDD:**
Nos Iau, Tachwedd 17 cynhaliwyd cynhadledd gyrfaoedd yn yr ysgol. Bu nifer o gynrychiolwyr y prif yrfaoedd yn cynnig cymorth a chyngor i ddosbarthiadau 4, 5 a 6 a'u rhieni.

**PÊL-DROED:**
Yn ystod y mis bu Steven Owen yn chwarae dwy gêm i dîm dan 18 Ysgolion Gogledd Cymru.
Er iddynt golli o 5 gôl i 3 yn erbyn tîm ieuenctid Manchester United cafodd y bechgyn ddiwrnod cofiadwy ym Manceinion. Ar ôl chwarae yn y bore cawsant weld tîm cyntaf Manchester United yn chwarae yn y prynhawn.
Yn yr ail gêm gwnaeth y tîm yn hynod o dda i guro tîm Swydd Amwythig o 4 gôl i 2.

**Ysgol Syr Huw Owen (gartref):** Bechgyn dan 13eg: colli 4-1; dan 15: colli 10-1; hŷn: colli 4-1; **Ysgol Llangefni (oddi cartref): Dosbarth 1:** Tîm A: colli 6-3. Tim B: colli 4-1. **Dan 13:** Ennill 3-2, **Dan 15:** Cyfartal 3-3, **Dan 16:** colli 3-0.
**Ysgol Penrallt Pwllheli (gartref): bechgyn dan 13:** colli 4-0.
**Ysgol Syr Hugh Owen (gartref): Bechgyn dan 13:** ennill 4-1, dan 14: ennill 4-1, hŷn: colli 3-0.
**Gemau rhwng dosbarthiadau Dosbarth 4A-1 Dosbarth 4B-1, Dosbarth 3A-7 Dosbarth 3B-1, Dosbarth Un-2 Dosbarth Dau-5.**
**Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch (oddi cartref):** Bechgyn hŷn, colli 2-0 (cwpan Ivor Tuck), dan 13 colli 4-2, dan 15 colli 4-3.

**PÊL-RWYD:**
**Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch (oddi cartref): Dosbarth 5, colli 8-7**
**Ysgol Syr Hugh Owen (gartref):** Dosbarth 2: Tîm A, colli 12-8, Tim B, Colli

**CANLYNIADAU:**
Yn yr adroddiad ar wobrwyon yn rhifyn Hydref o'r 'Eco' dylid fod wedi egluro fod yr arian ar gyfer gwobrwyon am ganlyniadau 'O' a 'TAU' wedi dod o ddwy Gronfa sef Cronfa David a Jane Jones a Chronfa Mary Parry.
Hefyd daeth dadansoddiad swyddogol o ganlyniadau Gwynedd a chanlyniadau yr Ysgol hon i law o'r Swyddfa Addysg. Eto eleni teg yw dweud fod canlyniadau yr Ysgol hon yn cymharu yn ffafriol iawn â chyfartaledd canlyniadau Gwynedd.

W.E. Thomas
Prifathro

## RHAI O'R LLUNIAU A DYNNWYD YN EISTEDDFOD YR YSGOL



*Seremoni cadeirio Marina Bryn Roberts. O'i hamgylch mae gorsedd beirdd yr ysgol a genethod Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n perfformio'r ddawns flodau.*


*Criw o forladron yn canu o'i hochr hi!*


*Dipyn o ddadl ar lwyfan yr Eisteddfod!*

*Gobeithiwn ddangos rhagor o luniau a chyhoeddi'r canlyniadau yn ein rhifyn nesa ymhen pythefnos.*

### Llyfr Newydd

### 'ADLODD LLWYD O'R BRYN'

Anrheg Nadolig a gaiff ei drysori gan bob un sy'n caru'r 'pethe', sef cyfrol o sgyrsiau, ysgrifau, ambell gerdd a llythyr gan y gŵr a fathodd yr enw am ein gwarineb Cymreig. Roedd Llwyd o'r Bryn yn ymgorfforiad o'r gwarineb hwnnw – yn amaethwr, cerddor, adroddwr, bardd, llenor, actiwr, athro, blaenor, darlithydd a chwmnïwr hynod.
Ceir hefyd yn y gyfrol, ddarluniau diddorol a theyrngedau rhai o'r beirdd a'r llenorion a'i harddwch. Ei ferch Dwysan Rowlands a gasglodd y cyfan ynghyd.
*Adlodd Llwyd o'r Bryn.* Gol. Dwysan Rowlands ('Llwydferch'). Cyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd. Pris £3.50.

**CYFARFOD CYFFREDINOL EISTEDDFOD LLANRUG**
**Nos Fercher Rhagfyr 7 yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.**


LLYFR DA I LENWI TWLL YN EICH HOSAN Y NADOLIG HWN



Atgofion gweithiwr ffordd sy'n dangos datblygiad dulliau a threfn y gwaith yn y 30au. Cawn hefyd gofnod am ofynion cyfnod y rhyfel

SICRHEWCH NADOLIG LLAWEN I'R PLANT



Y diweddaraf yng Nghyfres Sionyn. Dim ond 50 ceiniog!

YN Y SIOPAU HEDDIW!



Antur, Jôcs a Hwyl ar bob tudalen! Mae holl gymeriadau SBONCYN yn eich disgwyl yn eiddgar! Brysiwch i gael eich copi chi!

O'R DIWEDD!

GARI GOFODWR

Llyfr cyfan o anturiaethau GARI GOFODWR, un o sêr y comic SBONCYN. Brysiwch i gael copi cyn iddo ddiflannu!

DIM OND 50 ceiniog!


DWY GENHEDLAETH

LLYFR A RYDD BLESER AM ORIAU

Casgliad o sgyrsiau radio difyr a dadleuol wedi eu dethol o'r gyfres radio boblogaidd dan gadeiryddiaeth Gwilym Owen.

ORIAU O DDIFYRRWCH I'R PLANT

Y llyfrau cyntaf mewn cyfres arbennig sy'n llawn lluniau a chroeseiriau difyr ar gyfer plant 7-11 oed.

AMSER HAMDDEN a GWYLIAU


DIM OND 50 CEINIOG YR UN!

Hir yw Pob Ymaros

BYW AM YFORY




Y diweddaraf yng 'Nghyfres y Fodrwy' — allan erbyn y Nadolig. Dim ond 60 ceiniog.

Cyfres y Fodrwy — yn dod â rhamant at garreg eich drws

Ar gael yn y siopau 'nawr neu oddi wrth
CYHOEDDIADAU MEI, STRYD Y WYDDFA, PENYGROES, CAERNARFON, GWYNEDD ☎ (0286) 880302



BILL ac EILEEN GRIFFITHS


Antiques
Ivy Cottage
BETHEL
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# Stori Arswyd

**Llongyfarchiadau** i Gwyneth Ellis, Glyn Awel, sydd yn 16 oed, a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth 'Stori Arswyd' yn Eisteddfod Ardal Waunfawr. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniad ac awgrymodd yntau ein bod ni, darllenwyr yr Eco yn cael y cyfle o'i darllen.

## YNO, YN Y CYSGOD

. . . sgrialodd y modur ar hyd y ffordd lychlyd, ac aros; neidiodd dau ddyn ohono, a dechrau rhedeg am adeiladau tal ar ochr y stryd . . . Ond 'roedd Lowri wedi hen alaru ar y ffilm. Dymunodd nos da i'w rhieni a dringo'r grisiau i'w hystafell wely.

Ar ôl gorffen un bennod o'r llyfr, diffoddodd y golau, trodd ar ei hochr a cheisio cysgu. Bu'n troi a throsi am hydoedd, ond 'roedd cwsg yn cau yn glid â dod i Lowri'r noson honno. 'Roedd newydd fod yn gwylio ffilm am ysbïwyr, a nawr, 'roedd yn cael y teimlad anghynnes hwnnw fod rhywun, neu rywbeth, yn ei gwylio hi. Edrychodd o gwmpas yr ystafell yn betrusgar. 'Roedd y llafn cul o olau gwyn a ddeuai i fewn trwy gil y drws yn gwneud i bethau cynefin ei hystafell ymddangos yn wahanol, yn frawychus a iasoer, bron yn arallfydol rywsut.

Cododd y cwilt cyfandirol tros ei phen. Ceisiodd swatio yn niddosrwydd y cwilt, ond 'roedd rhywbeth, ni wyddai beth, yn gyrru iasau i lawr ei chefn. Ar ôl troi a throsi am hydoedd daeth cwsg o rywle a chipio Lowri i fyd breuddwydion; a hunllefau.

Roedd cwsg Lowri'n aflonydd iawn y noson honno. 'Roedd yn gwingo fel Llambedyddiol nes 'roedd dillad y gwely'n bendramwnagl. Wrth droi a throsi, gwelodd Lowri, yn ei chwsg, anialwch eang. 'Roedd y darlun yn aneglur, ond fel y ciliodd y niwl o'i meddwl, gallai weld yr anialwch yn well; gwelai'r tywod gwyn yn ymestyn i bob cyfeiriad, cyn belled ag y gallsai weld. Gwelai'r haul tanbaid, yn disgleirio ar yr ychydig blanhigion oedd yno'n ddidrugaredd. Gwelodd ferch wedi llewygu ar ddaear grasboeth yr anialwch. Gwelodd, yn uchel yn awyr las, digwmwl yr anialwch, ysmotyn bychan du, yn hedfan mewn cylchoedd, gan ddod yn is ac yn is. Pan gyrhaeddodd y smotyn yn ddigon isel, gwelodd mai fwltur, carthwr yr anialwch, oedd yr aderyn. Glaniodd y fwltur ar fron y ferch; dechreuodd hi sgrechian ac ysgwyd ei chorff yn histeraidd. Caeodd y ferch ei llygaid yn dynn, ond plannodd y fwltur ei big bachog yn amrant y ferch a'i rwygo i ffwrdd.

Clywodd Lowri'r ferch yn sgrechian yn ddi-lywodraeth, a gwelodd waed yn byrlymu o ble 'roedd amrant y ferch yn arfer bod. Ceisiodd Lowri gau ei llygaid, ond ni allai, 'roedd yn gweld y cwbl â manylder byw. Suddodd y fwltur ei big hir i lygaid y ferch, trwy'r bilen feddal. Llifodd sudd du yn araf allan o'r llygaid gan gymysgu â'r gwaed a llifo dros wyneb y ferch. 'Roedd sgrechiadau'r ferch yn ddigon i yrru unrhyw un yn wallgof erbyn hyn.

Deffrodd Lowri'n boeth drosti, yn crynu fel deilen ac yn chwys domen. Eisteddodd i fyny, a gwelodd o'i blaen, yng nghornel dywylla'r ystafell, ddau lygad coch, disglair, maein a hir fel llygaid cath, yn syllu arni. Dim byd arall, dim ond dau lygad coch.

Sgrechiodd Lowri ar dop ei llais, nes 'roedd y sgrech yn diasbedain o gwmpas y tŷ. Clywodd glic y swits, a llifodd y golau cryf i bob congl o'r ystafell; 'doedd dim byd yno. Yna 'roedd ei mam wrth ei hochr, yn ei chysuro, ac yn gafael yn dynn amdani. Penderfynodd Lowri mai dim ond rhan o'r freuddwyd oedd y ddau lygad coch, ac ar ôl i'w mam adael aeth yn ôl i gysgu gyda'r golau ymlaen.

Yn y bore, pan ddeffrôd Lowri, 'roedd popeth yn naturiol unwaith eto, gwelodd y byd tu allan yn union fel y diwrnod cynt, yr adar yn canu, yr awyr yn las a'r caeau'n wyrdd. Anghofiodd am y freuddwyd a'r ddau lygad coch, neu felly y tybiai hi.

. . . .

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach 'roedd y Doctor Lowri Tomos, M.Sc., yn gweithio yn anialwch y Sahara, yng ngogledd Affrica. 'Roedd yn astudio bywyd y neidr saeth ddu leiaf, un o'r nadredd prinaf a pherycla' yn y byd.

Un diwrnod 'roedd rhaid i Lowri adael ei bwthyn bach yng nghanol yr anialwch, i geisio dal pâr o'r nadredd hyn. 'Roedd hi'n gwybod am lecyn, tua deng milltir ar hugain i ffwrdd ble 'roedd teulu o'r nadredd yn byw. Neidiodd i fewn i'r jîp gyda'i rhwyd, ei bocs a'i menyg lledr, a gyrru i ffwrdd.

Yn hwyr y noson honno, ar ôl iddi dywyllu, cyrhaeddodd Lowri yn ôl i'r bwthyn. Teimlai'n lluddedig, ond hapus ar ôl diwrnod da o waith. Diffoddodd beiriant y jîp a neidio ohono. Dringodd i fyny'r grisiau tua drws y bwthyn. Agorodd y drws, a chyn rhoi'r golau ymlaen gwelodd, yno yn y cysgod, dau lygad coch, disglair, main a hir fel llygaid cath, yn syllu arni . . .

LLAMBEDYDDIOL

**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# Arddangos ei gwaith yn y Plas

Mae trigolion a staff Plas Pengwaith, Llanberis wedi cael benthyg deuddeg o luniau Nia Lloyd Hughes yr arlunydd o Lanrug. Rhan o gynllun ehangach gan Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr yng Nghymru yw hwn i arddangos gwaith arlunwyr lleol mewn cartrefi i'r henoed ledled Gwynedd.

Mae darluniau Nia yn rhan o gasgliad a wnaeth yn gynharach eleni yn dangos bywyd ar fwrdd y llong-fferi St Columba, ar ei thaith ddyddiol rhwng Caergybi ac Iwerddon. Cafodd Nia deithio ar y llong bob dydd am wythnos i fraslunio'i darluniau. Roedd y stori'n llawn yn rhifyn Ebrill o'r Eco.

Cynnwys yr arddangosfa fechan ym Mhlas Pengwaith ddarluniau mewn gwahanol gyfryngau o deithwyr, gwaith yn yr harbwr yn ogystal â golygfeydd o'r môr yn ei wahanol agweddau.

Mae'r darluniau ar werth a gellir cael manylion am eu prisiau gan Mrs Davies, Matron y Plas.



*Mrs Davies, Nia Lloyd Hughes a Rhiannon, merch fach a chefnogwr mwyaf brwd Nia.*





- **CLAP A CHÂN I DDUW** Eddie Jones & Falyri Jenkins
  *74 o emynau modern, hwyliog i blant / £4.50*
- **CANEUON RYAN** / *£2.50*
  *Trefniant cerddorol llawn o 11 o'i ganeuon mwyaf poblogaidd*
- **CYMRU'R CYNFAS** Hywel Harries / *£4.95*
  *Gwledd o luniau lliw a du-a-gwyn gan 15 artist cyfoes; c.caled*
- **MARC DANIEL** Dafydd Parri
  *Nofel dditectif gyffrous i bobl ifanc / £1.75*
- **DIGWYDDIADUR 1984**
  *Dyddiadur poced mwya handi'r iaith / £1.15*
- **SGORIO MIL–9. Gwaith a Hamdden**
  **SGORIO MIL–10. Y Byd Pop**
  *Yr olaf yn y gyfres gweld-a-sgorio gan Catrin Stevens / 75c yr un*
- **CYFRES RWDLAN–1. Rala Rwdins, 2. Ceridwen**
  *Cyfres newydd o lyfrau doniol i blant bach gan Angharad Tomos 95c yr un*
- **CANT O GROESEIRIAU** Blodwen Jones
  *Y ffordd ddelfrydol o ladd amser dros yr Wyl! / £1.95*
- **YSGRIFE'R RANDIBŴ** Corissa Jones
  *Ysgrifau dychanol yn nhafodiaith Maldwyn / £1.95*

Ein Catalog 48-tudalen ar gael am ddim drwy'r post

**Y Lolfa**
*Gwasg fywiocaf Cymru!*
TALYBONT CEREDIGION ffôn 304

# OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn: Llanberis 870545

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth*

# BECWS DEINIOLEN



(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

# DILYS

VOELAS
STRYD FAWR
DEINIOLEN
Llanberis 871465

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

## Mr a Mrs BRYTHON JONES

LLYTHYRDY
CLWT Y BONT
Ffôn: Llanberis 870325

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

# IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Mwynhewch y parti – yna ffoniwch

# DEINIOLEN CABS


Gwasanaeth 24 awr – unrhyw bellter
Eich rhedeg i'r Maes Awyr neu'r Porthladd

Ffôn: Llanberis
871591

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

*Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau*




SIOP AMAN Stryd Fawr
DEINIOLEN *Ffôn: Llanberis 871201*

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu*

DYMUNA CLARICE, ERYL, JOHN a STAFF Y

# BULL INN

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i gwsmeriaid a chyfeillion oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

# CLOG

OFFER DRINGO A DIOGELWCH
CLOGWYN
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870551

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)



**CYFARCHION NADOLIG O DDEINIOLEN**

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

**DAVID, CAROL A'R STAFF**

## WELLINGTON INN

**Deiniolen**

Ffôn: Llanberis 870227

Cwrw blasus – chwerw ar ei orau

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
Mr a Mrs

# JACOB A. JAMES

## Regent House

## DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870461

*Diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn*

**Am anghenion y Nadolig . . .**

# D & A SUPERMARKET


**STRYD NEWYDD**

**DEINIOLEN Ffôn 870171**

Dymuna Andy a Dave ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y siop

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**

# SCIPIAU TIM



# o £16

CYTUNDEB DYDDIOL NEU WYTHNOSOL

**TIM FRAZER JONES**

**BUARTH BERAN, DEINIOLEN**

*LLANBERIS 871354*

Nadolig Llawen a Dedwydd i Bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

# ARFON GARAGE

## DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

**Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn**

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

# D & G Hughes

a genod

SIOP BAPUR NEWYDD

## DEINIOLEN



**Ffôn: Llanberis 870483**

# THOMAS & JONES

## Gwydrwyr



**YR HEN SINEMA**

**STRYD FAWR**

## DEINIOLEN

*Ffôn: Llanberis 870680 neu 870486*

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr.
Gwydro Dwbl. Drysau patio.
Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid a chyfeillion oddi wrth bawb yn



## SIOP EDNA

**Stryd Fawr**

## DEINIOLEN

**Ffôn Llanberis 872511**

DILLAD FFASIWN A GWLÂN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB oddi wrth CLIFFORD, DIANA a NIA

## Swyddfa'r Post

## DEINIOLEN

**Ffôn: LLANBERIS 870283**

NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD
DDA i chwi oll
oddi wrth
W.H.Jones
CIGYDD

WAENGOCH
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis 870638


CYFARCHION Y TYMOR
A'R DYMUNIADAU
GORAU AM 1984
oddi wrth
GWYN OLIVER JONES
Tafarn
Datws
Arfonia
DEINIOLEN


Am ddewis da o
anrhegion Nadolig
i bawb o'r teulu
SIOP HELEN
DEINIOLEN
*Ffôn: Llanberis 870386*
NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD DDA
i chi oll
*Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn*

# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W.O. Williams, Tŷ Capel Disgwylfa (Llanberis 871259)**



*Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Thomas Evans, Clwt-y-bont, ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar Dachwedd 2.*



*Llongyfarchiadau i Sharon Wyn Williams, Paula Thomas a Linda Thomas, Rhydfadog ar eu llwyddiant fel arweinydd a mascots Majorettes Deiniolen trwy'r haf.*

CYMDEITHAS Y GANOLFAN: Cynhelir Noson Goffi yn y Ganolfan am 7 o'r gloch, Rhagfyr 2. Mynediad 25c. Yr elw at gynnal a chadw'r Ganolfan.

DYMUNIADAU GORAU: i Anti Kate, 'Foel Gron', Dinorwig ar ei phen-blwydd yn 86 oed ar Ragfyr 11. Cofion gorau oddi wrth Kathleen a Tom, Prenteg, Deiniolen.

NEWYDDION Y SEINDORF: Bu'r Seindorf yn hynod o brysur yn ystod y mis a aeth heibio. Ar ddiwrnod y Cadoediad roeddynt yn chwarae ym Mangor yn y bore ac yn Neiniolen yn y prynhawn.

Aelod o'r Seindorf, Mr Ieuan Morris a chwaraeodd y darnau unigol o flaen cofgolofn y pentref.

Uchafbwynt y mis oedd Pencampwriaeth Gogledd Cymru yng Nghei Conna, Tachwedd 19.

Canlyniad y Darn Prawf oedd: 1. Deiniolen 180 pwynt; 2. Y Fflint, 178 pwynt; 3. Seindorf Arian yr Oakley, 174 pwynt.

Daeth Seindorf Deiniolen yn ail yn yr ail gystadleuaeth sef Emyn Dôn. Daeth anrhydedd arall i'r Seindorf gyda llwyddiant Alan Broadbent (sydd yn chwarae trombôn cyntaf) yn cipio gwobr am berfformiad gorau ar y trombôn.

Mae Alan yn wreiddiol o Fanceinion ond yn byw ym Mangor erbyn hyn.

Llongyfarchiadau felly i Alan a holl aelodau'r Seindorf am ddod â chlod i'r ardal unwaith eto.

ENILLWYR CLWB 200 Y SEINDORF: Tachwedd – 1. £25, Rhif 17, Mr R. Pleming, Llanrug, 2. £15, Rhif 133, Mr C. Owen, 3. £15, Rhif 44, Mr D. Evans, Penisarwaun.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Dachwedd 7. Dan arweiniad y llywydd darllenwyd y llythyr misol o'r cofnodion gan yr ysgrifennydd. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mrs Vera Hughes, (VCO). Cawsom gyfle i weld nifer o debotiau hardd y bu Mrs Hughes yn eu casglu ar hyd y blynyddoedd. Diolchwyd iddi gan Mrs Rita Jones, Becws a Mrs Williams, 2 Bwthyn. Cafwyd stondin Moes a Phryn hefyd. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Rita Jones, Becws a Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen. Yr enillwyr oedd Mrs H.J. Thomas a Miss Kathleen J. Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Rowlands, Mrs Beti Williams a Miss Beti Williams. Cafodd Miss Beti Williams ei hail ethol i gynrychioli'r Sefydliad ar Bwyllgor y Ganolfan.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Rhagfyr 5. Bydd Mrs Vera Hughes (VCO) o Fethesda yn ymweld â'r Sefydliad eto.

Cofiwch am Noson o Garolau a drefnir gan y Sefydliad yn Eglwys Llandinorwig.

DIOLCH: Dymuna Goronwy, Mair ac Eddie Wyn Lewis gynt o 18 Rhydfadog ddiolch yn gynnes iawn i ardalwyr Deiniolen em eu caredigrwydd tuag atynt ar hyd y blynyddoedd tra buont yn byw yno, ac hefyd am y dymuniadau gorau a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu symudiad i fyw i 45 Cae Bold, Ffordd Bethel, Caernarfon.

Dymuna Mrs J. Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, ddiolch i'r prifathro, athrawon a'r plant a chydweithwyr yn Ysgol Gwaun Gynfi am 16 mlynedd hapus a'r rhoddion hael a dderbyniodd ar ei hymadawiad â'r ysgol yn ddiweddar.

## PWYSIG!

**Mae angen dosbarthwr yr Eco yn Neiniolen. A wnaiff unrhyw un sydd am helpu gysylltu ar fyrder ag O.M. Parry, prif ddosbarthwr yr 'Eco' yn Neiniolen.**

## PICNIC YM MARCHLYN



*Diolch i Mrs Megan Eirlys Jones, Cremlyn, Bethel am y llun uchod o blant Ysgol Deiniolen yn cael picnic ym Marchlyn. Mae Mrs Jones yn awyddus i gael gwybodaeth am y llun, e.e., beth oedd y dyddiad? Pwy oedd yr athrawon a rhai o'r plant?*

## YSGOL Y BABANOD GWAUN GYNFI 1935



*Diolch i Mrs N. Owen, Rhydfadog am y llun uchod. Mae Mrs Owen yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â'r plant yn y llun.*

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG:
**4.12.83: 10.40 – Cymun y Canmlwyddiant yn Eglwys y Santes Helen Penisarwaun gyda'r Esgob J. Cledan Mears yn pregethu. Ceir lluniaeth ysgafn yn Neuadd yr Eglwys ar ôl y gwasanaeth.**

6.00– Gosber.
**11.12.83:** 9.30 – Cymun
6.00 – Gosber
**18.12.83:** 2.00 – Drama'r Nadolig gan y plant
5.30 – Gwasanaeth Carolau yn Libanus
**25.12.83:** 10.30 Cymun y Nadolig

Ceir Gwasanaeth o Gymun Bendigaid am 9.30 bob bore dydd Mercher yn ystod tymor yr Adfent.

Patrwm 1984: Sul 1af. 8.30 – Cymun
6.00 – Gosber
Ail Sul: 9.30 – Cymun
6.00 – Gosber
3ydd Sul: 6.00 – Gosber
4ydd Sul: 9.30 – Boreol Weddi
6.00 – Gosber
5ed Sul: 10.00 – Cymun Penisarwaun
2.00 – Gwasanaeth Ieuenctid Llandinorwig
5.30 – Gosber yn St Mair

### Parc Gwledig Padarn
### Rheolau Ymddygiad

Yn dilyn cwynion gan bobl sy'n byw yng nghyffiniau Parc Gwledig Padarn, Llanberis ynghylch tanio gynnau o fewn y Parc, derbyniodd yr Eco ddatganiad gan y Cyngor Sir:

"Hyd nes arddangosir yr Is-Ddeddfau swyddogol ar gyfer ymwelwyr â Pharc Gwledig Padarn, fe ddangosir 'Rheolau Ymddygiad' wrth y brif fynedfa ger Amgueddfa Lechi Cymru.

Yn y rheolau ceir rhestr o bethau na ddylai'r ymwelydd eu gwneud am y byddent yn amharu neu'n tarfu ar ddefnydd pobl eraill o'r Parc. Yn arbennig, gwaherddir tanio gynnau ac arfau eraill a bydd yn rhaid i unrhyw berson sy'n torri'r rheolau adael y Parc.

Gellir archwilio'r Rheolau Ymddygiad yn Adran Ysgrifennydd y Sir yng Nghaernarfon **neu** wrth y fynedfa a nodwyd uchod."

## YN EISIAU

Beic 'Raleigh Boxer' mewn cyflwr da. Ffôn: Caernarfon 76063

# TEYRNGED "NOW PEN PARC"

**Ym marwolaeth Owen T. Jones daeth pennod arall o hanes bandiau'r chwarelwyr i ben. Rhoddodd oes gyfan i wasanaethu'r tri band cysylltiedig â Chwarel Dinorwig, sef bandiau Deiniolen, Llanrug a Llanberis. Ond yr oedd enw 'Now Pen Parc' yn adnabyddus i gylch llawer ehangach ym myd y bandiau, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bron na ellid dweud iddo gael ei eni â chornet ar ei wefusau. Onid ei dad, W.R. Jones, Pen Parc, yn nechrau'r ganrif, oedd arweinydd cyntaf band presennol Deiniolen?**

Dechreuodd ganu'r cornet yn grwtyn seithmlwydd a buan iawn y daeth yn offerynnwr arbennig o fedrus. Parhaodd i'w ganu, rhwng ysbeidiau fel arweinydd, am gyfnod o 66 mlynedd. Dyn band o'r iawn ryw oedd Owen Jones. Dyna'i fwyd a'i ddiod. Ond yr oedd yr un mor barod ei wasanaeth a'i gymwynas mewn sawl cyfeiriad arall hefyd, a bu'n warden yn Eglwys y Santes Fair, Dinorwig, am nifer o flynyddoedd.



Daeth yn adnabyddus i filoedd o eisteddfodwyr fel un o'r ddau utganwr a seiniai'r Corn Gwlad oddi ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn holl seremonïau'r Orsedd. Ei enw yng Ngorsedd oedd 'Owen Orwig'. Ei bartner cyntaf oedd y diweddar W.T. (Billy) Davies ('Gwilym Maerdy'), ac ar ei ôl ef Tom Williams ('Tom Deiniol'). Diddorol yw sylwi mai aelodau o fandiau Deiniolen a Llanrug sydd wedi cael yr anrhydedd hon bob mis Awst ers blynyddoedd bellach pa un bynnag a gynhelir yr Eisteddfod yn y Gogledd neu'r De.

Ym 1971 bu i Gymdeithas Genedlaethol y Bandiau Pres gydnabod ei wasanaeth trwy gyflwyno iddo Dystysgrif Aelodaeth Anrhydeddus am Oes fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth di-dor dros gyfnod o hanner can mlynedd.

Symudodd ef a'i briod o Ddinorwig i Lanrug ym 1970 a bu'n arweinydd y band yno. Ond gyda'r ieuenctid yr oedd ei brif ddiddordeb. Roedd ganddo feddwl y byd o'i *ricriwts*, chwedl yntau, ac roedd ganddo ei ffordd arbennig ei hun o ddysgu cerddoriaeth iddynt. Deallent ei gilydd i'r dim, ac nid oedd ball ar ei amynedd. Y duedd yn aml, pan ddaw buddugoliaeth i unrhyw fand, yw canmol a chlodfori'r hyfforddwr proffesiynol – dyn dieithr fel rheol – gan lwyr anghofio'r arloeswr lleol a fu, fel Owen Jones, yn llafurio i osod y sylfaen ac yn gwneud y 'gwaith rhaw' iddo.

Er iddo ymddeol o fod yn Swyddog Diogelwch, neu 'Blisman Chwaral', amhosibl i Owen Jones oedd meddwl am riteirio'n hapus a bodlon heb gorn neu fatwn yn ei law. Yn wir fe brynodd gornet newydd sbon lai na blwyddyn yn ôl, ac mae'r corn hwnnw heddiw yn eiddo ei wyres 14 oed, sef Rowenna Mai Jones, Rhosbodrual, Caernarfon, sy'n aelod brwdfrydig o fand Llanberis, – a pha ryfedd? Roedd Owen Jones wrthi mor brysur ag erioed y dydd olaf y bu fyw yn trefnu'r rhaglen a chopïau o 'The Old Rugged Cross' ar gyfer Gwasanaeth y Cofio. Seiniwyd y 'Last Post' eleni eto yn Llanberis, ond roedd yr hen fandar, eu harweinydd, wedi ateb galwad arall bythefnos ynghynt.

Heddiw, daw atgofion am ei gwmni diddan wrth fynd a dod i'r gwahanol ornestau yn Southport, Connah's Quay a Phrestatyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Bydd yn chwith amdano. Gwrandawai'n astud a deallus ar bob perfformiad gan roddi ei farciau ei hun i bob band, ac eithriad fyddai iddo (neu'r beirniaid!) fethu â dewis y tri band gorau yn y gystadleuaeth.

Yr oedd yn brynhawn Sadwrn tyner o Dachwedd, a'r cyrn arian yn disgleirio yn yr haul pan gludwyd ei weddillion gan aelodau o'r tri band a'i roi i orffwys ym mynwent Llandinorwig. Tra'n sefyll yno, gan ddiolch am gael ei adnabod, daeth i'm cof gwpled o englyn Gwilym Deudraeth i William Jones (Corn Mawr) Nantlle, a oedd o'r un anian yn union ag Owen Jones –

**'I'w ddoniau ni bydd hunell,**
**Mae'n bownd o gorn mewn band gwell'.**

**EMYR JONES,**
**CAERNARFON**

# EISTEDDFOD DEINIOLEN

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi yng nghapel Ebeneser, Deiniolen ddydd Sadwrn, Hydref 29, 1983.

Y beirniaid oedd: Mr Walter Glyn Davies (Cerdd), Mr Selwyn Griffith (Llên ac Adrodd), Mrs Eirlys Hughes (Coginio), Mrs Arfona Jones (Gwau a Gwnïo), Mr Kevin Jones (Arlunio a Gwaith Llaw), Mr Gwilym Williams (Gwaith Coed, etc). Y cyfeilyddes oedd Miss Annette Bryn Roberts a'r llywyddion Mrs Catherine E. Jones, Caernarfon a Mr W. Iolen Hughes, Rhiwlas. Yr arweinyddion oedd: Miss Jean Parc Jones, Mri W.J. Eames, Gwyn Parry ac R. Williams.

**CERDD:**

**Adran Feithrin a Dosbarth 1**: 1. Aaron Jones, 2. Carolyn Williams, 3. Elaine Williams. **Dosbarth 2 a 3**: 1. Hayley Williams, 2. Nia Land, 3. Tracey Young a Gavin Saynor (cydradd). **Safon 1 a 2**: 1. Siôn Wyn Hughes, 2. Rhian Hughes, 3. Sara Wood, 4. Gwawr Williams. **Safon 3 a 4**: 1. Terry Evans, 2. Iwan Williams, 3. Sharon Williams. **Unawd Piano dan 12 oed:** 1. Jennifer Ellen Jones, 2. Gwawr Williams, 3. Mared Sutherland. **Unawd offerynnol dan 12 oed:** 1. Dylan Wyn Williams, 2. Iwan Williams, 3. Dylan Cole Jones, 4. Jennifer E. Jones. **Parti Canu dan 12 oed**: 1. Parti'r Brownies, 2. Parti Barry, 3. Parti Paula, 4. Parti Dawn. **Cân Werin dan 12 oed:** 1. Jennifer E. Jones. **Cwpan am y cyflwyniad cerdd gorau dan 12 oed:** Dylan Wyn Williams. **Unawd dan 15 oed**: 1. Gwenno E. Parry, Porthmadog, 2. Nia Thomas, Llanberis, 3. Alison Edwards, Llanberis a Raymond Williams, Talysarn (cydradd). **Unawd o 15 i 19 oed**: 1. Bryn Terfel, Pantglas, 2. John Eifion, Garndolbenmaen, 3. Trefor Williams, Bodffordd a Lynne Jones, Llanberis (cydradd). **Deuawd dan 18 oed:** 1. Guto Lloyd Jones a Terry Evans. **Unawd dan 25 oed:** 1. Iona S. Williams, Bodwrog, 2. Bryn Terfel, 3. John Eifion, 4. Elen Ann Evans, Llansadwrn. **Unawd Piano dan 18 oed**: 1. Sharon Williams, 2. Helen M. Jones, 3. Alison Edwards, 4. Raymond Williams. **Her unawd:** 1. Clarence Jones, Llanddaniel, 2. Iona S. Williams, 3. Emyr Jones, Llangristiolus. **Emyn dros 50 oed**: 1. Katie Wyn Jones, Llandwrog, 2. J.W. Enston, Bontnewydd, 3. Alun Williams, Waunfawr a Dan Williams, Carmel (cydradd). **Deuawd dros 18 oed:** 1. Humphrey Jones ac Alun Williams, Waunfawr, 2. Myra Rowlands a Maureen Evans, Deiniolen, 3. Betty P. Roberts ac Olwen B. Roberts, Dinorwig. **Pedwarawd neu Wythawd**: 1. Wythawd Dinorwig (arweinydd Annette Roberts). **Unawd Gymraeg**: 1. John Eifion, 2. Emyr Jones, 3. Alun Williams a Humphrey Jones (cydradd). **Unawd Offerynnol**: 1. Gwyn Parry, 2. Julian. **Unawd Cerdd Dant:** 1. Bryn Terfel, 2. John Eifion, 3. Nerys Wyn Jones, Caernarfon, 4. Gwenno Emlyn Parry. **Cân Werin**: Cydradd gyntaf: John Eifion, Nerys Wyn Jones ac Alun Williams. **Côr neu Barti**: Parti Olwen (arweinydd David Wyn Williams).

**ADRODD:**

**Adran Feithrin a Dosbarth 1**: 1. Lindsey Evans, 2. Siân Thomas, 3. Bethan Williams ac Aaron Jones (cydradd). **Dosbarth 2 a 3:** 1. Hayley Williams, 2. Gavin Saynor, 3. Nia Land. **Safon 1 a 2:** 1. Dyfan Siôn, 2. Rhian Hughes, 3. Sioned Evans, 4. Lucy Abbott. **Safon 3 a 4**: 1. June M. Williams, 2. Jean Williams, 3. Linda Jones. **Dan 15 oed**: 1. Heulwen Roberts, Llanddaniel, 2. Mari Wyn Williams, 3. Raymond Williams a Jennifer E. Jones (cydradd). **Dan 19 oed:** 1. Eleri Lewis Jones, Llansadwrn, 2. Lynne Jones, Llanberis. **Dan 25 oed**: 1. Gwenda Williams, Bodffordd. **Prif Adroddiad**: 1. Gwenda Williams, 2. Nerys Wyn Jones. **Cyd-adrodd dan 12 oed**: 1. Parti'r Brownies. **Cyd-adrodd dros 18 oed:** Parti Ceris (arweinydd Mary Wyn Jones). **Cwpan am y cyflwyniad adrodd gorau dan 12 oed**: 1. Dyfan Siôn.

**LLENYDDIAETH:**

**Adran Feithrin a Dosbarth 1**: 1. Daniel Jones, 2. Michael, 3. Elen. **Dosbarth 2 a 3**: 1. Hayley ac Euros (cydradd), 2. Branwen a Donna (cydradd), 3. Nerys a Nia (cydradd). **Safon 1 a 2:** 1. Siân Griffith, 2. Karen Price a Susan Jones, 3. Donna Jones, Neil Griffith a Sara Wood. **Safon 3 a 4**: 1. Anna Kate Taylor, 2. Dylan Wyn Williams, 3. Shân Jones. **Cwpan am y cyflwyniad gorau dan 12 oed:** 1. Anna Taylor. **Dan 15 oed**: 1. Tegid Roberts, 2. Jennifer E. Jones. **Dan 18 oed:** 1. Helen Mair Jones. **Creu brawddeg o'r graig 'Dinorwig neu 'Clwt-y-bont'**: 1. Hugh Jones, Tai'r Faenol. **Stori Fer**: Dewi Tomos, Rhostryfan. **Cadair yr Eisteddfod:** Dewi Tomos, Rhostryfan.

**BARDDONIAETH:**

**Dan 12 oed:** 1. Jennifer Ellen Jones. **Englyn**: Nanw Roberts, Bethesda. **Telyneg**: 1. John Williams, Llanerchymedd. **Parodi**: 1. Ellen Wyn Jones, Dinorwig. **Limerig**: 1. Mary Wyn Jones, Deiniolen. **Llinell Goll**: 1. Eirlys Williams, Deiniolen.

**ARLUNIO:**

**Yr Ysgol Feithrin**: 1. Rhiannon Longley, 2. Siân Wyn Evans, 3. Euriona E. Jones. **Dosbarth Meithrin ac 1**: 1. Michael Thomas, 2. Siân Elen Thomas, 3. Daniel Jones. **Dosbarth 2 a 3:** 1. Martin Thomas, 2. Joe Jephson, 3. Robert Vaughan Jones. **Safon 1 a 2**: 1. Sara Wood, 2. Gwawr Williams, 3. Dewi Williams. **Safon 3 a 4:** 1. Dylan W. Williams, 2. Iolo Griffith, 3. Iolo Wyn Griffith a Katie Grant (cydradd). **Dan 18 oed**: 1, 2 a 3: Dylan Wyn Jones. **Cwpan am y cyflwyniad gorau**: Dylan Wyn Jones.

**GWAITH LLAW:**

**Yr Ysgol Feithrin**: 1. Iwan Jones, 2. Tony Jones, 3. Rhiannon Longley. **Dosbarth Meithrin ac 1**: 1. Aaron Jones, 2. Siân Elen Thomas. **Dosbarth 2 a 3**: 1. Martin Llewelyn Williams, 2. Euros Wyn Williams, 3. Elena F. Williams ac Anita Williams (cydradd). **Safon 1 a 2:** 1. Siân Griffith, 2. Alun Griffith, 3. Dyfan Siôn. **Safon 3 a 4**: 1 a 2: Dylan William, 3. Mared Sutherland. **Dan 15 oed**: 1 a 2: Ian Roberts, 3. Sandra Williams.

**GWAITH COED:**

1. Neville Williams, 2. P.J. Moeller.

**GWAITH METEL:**

1. John M. Griffith.

**GWAITH LLECHEN:**

1. Dewi Lewis.

**Cwpan Clwb Snwcer Deiniolen**: John M. Griffith.

**GWAU:**

**Siwmper**: 1. Ellen Wyn Williams, 2. Margaret Roberts, 3. Diana Davies. **Tegan Meddal**: 1. Menna Wyn Jones, 2. P.J. Moeller, 3. Sally Lewis.

**COGINIO:**

**Dan 12 oed**: 1. Siôn Wyn Hughes, 2. Amelia Jones, 3. Gwawr Williams. **Dan 15 oed:** 1. Nia Davies, 2. Ceri Williams, 3. Nicola Parry. **Cacen Madeira**: 1. Margaret Roberts, 2 a 3: Eurwen Roberts. **Cacen Afal**: 1. Maggie Jones, 2. Helen Sutherland, 3. Dilys Hughes a Rona Jones (cydradd). **Chutney**: 1 a 2: Mary E. Jones, 3. Margaret Jones. **Taffi triog**: 1. Gwen Griffith, 2. Mary C. Jones a Mair Rees Jones (cydradd), 3. Sally Lewis. **Jam sandwich**: 1. Ernest Jones, 2. Idwal Jones, 3. Trefor Lewis a Brymer Parry (cydradd).


**IWERDDON~CYMRU**

**DULYN Chwefror 4 1984**

**Bws i'r Iwerddon**

**2 Nos Gwely a Brecwast**

**Gwesty moethus**

**Bws i'r Gêm ... ac o Ddulyn 11.30pm**

**Insiwrin teithio llawn**

**£58 Blaendal - £20**

**Hwylio am 4.30pm neu 3am Gwe/Sad**

**Dychwelyd dydd Sul am 12am neu 8.45pm.**

Cysylltwch yn awr am benwythnos ragorol. RHIFAU CYFYNGEDIG

**TEITHIAU DWYFOR CYF.**

Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd. Tel: (0758) 740748

**GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**

**Linda**

MOBILE HAIRDRESSER



Lliwedd

Ffordd Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

**CAERNARFON 3674**

i drefnu amser

**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**

**E. PUGH**

**WELDING & FABRICATING**

32 GLANFFYNNON

**LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

# YNG NGOLAU'R LLOER

## gan Goronwy Owen

"Mi arosa i yma nes y bydd hi'n tywyllu. Wyt ti'n siŵr y gelli di fynd a hi dy hun drwy'r rhyd?"

"Ddim trwbwl o gwbwl. Mae 'na ddigon o ddŵr, ac mi fydd y lli yn fy nghario drwadd."

Neidiais i'r lan, a rhoddais ŵth fach i'r cwch, i glirio'r cerrig oddi amgylch. Roedden ni wedi mentro i'r llyn ucha i 'sgota torgochiaid ond 'chawson ni fawr o hwyl arni. Nawr, roedd fy mhardnar am fynd adra, ac roeddwn i flys trio am frithyll neu ddau, oherwydd gwelwn fel yr oedd yn nosi, eu bod yn neidio'n dda yng ngysgod Boncan Castell. Roedd Gel, ar ôl hyrddio'i hun o'r cwch wedi nofio i'r lan, ac yn awr yn brysur redag nôl a 'mlaen yn chwilio am drwth. Cafodd ddwy awr o gwsg dan sêt ôl y cwch, ac nawr, roedd o'n llawn nerth ac egni. Gadewais iddo fod tra roeddwn yn paratoi fy ngêr. Gwyddwn y deuai'n ôl bob rhyw hyn a hyn i chwilio amdanaf. Roedd o'n gi da, ac yn gwybod fy symudiadau i yn well na mi fy hun, yn aml.

Dechreuais chwipio'r dŵr llyfn llonydd. Rhyw led lein oddi wrthyf, gwelwn fod 'na bysgodyn da yn ndeidio'n rheolaidd, a dechreuais anelu amdano. Roedd gen i bluen felen ar y blaen, a dwy hen ffefryn garpiog hefo hi. Fe dalodd, ac mewn llai na hanner awr, roedd 'na dri physgodyn da yn fy mag.

Tywyllodd yn araf, a chiliodd y wybed bach. Casglais fy mhetha' at ei gilydd, a chwibianais ddwywaith ar Gel. 'Ddaeth o ddim. Chwibianais eto, a galw,

"Gel, Gel, tyrd was. 'Dwy'n mynd."

Doedd dim hanes ohono. O noson mor fwyn, dechreuodd oeri fel yr ymddangosai'r lleuad uwchben y Glyder. Cerddais yn araf i fyny'r ochor am lwybr y castell. Hanner ffordd, fe'i gwelais hi rhyw bum llath o'm blaen. Safai ar y llwybr, ac roedd o'n dipyn o siop i'w gweld hi. Anamal iawn y byddai genod ifanc yn dod i fan hyn ar bennau eu hunain. Doedd o ddim yn lle i ferch, yn enwedig mor hwyr yn y nos. Dal i daflu golwg am Gel yr oeddwn, a thybiais efallai fod ganddi gariad yn ymyl, ond ni allwn weld unrhyw un. Wedi cymryd cam neu ddwy i fyny, meddyliais,

'Rhyw hipi wirion ydy hon – dillad llaes od a gwallt at 'i thraed'. Cyfarchais hi'n uchel,

"Syd'a chi? Mae'n noson braf."

Dim ateb, yn wir teimlwn ei bod yn edrych drwof. Cymerais gam yn nes ac roedd 'na ogla trwm arni.

'Hy' meddyliais wrthyf fy hunan, 'mae hon ymhell ar gyffuriau. Well i mi fod yn ofalus.' Ond nid arogl felys cyffuriau a gawn, ond oglau anghynnes fel hen flodau marw yng nghornel mynwent.

'Na, isio bath mae hon. Be sy'n bod ar y bobol 'ma, ydy nhw ofn dŵr?'

Ceisiais Saesneg, "It's a lovely evening."

Dim gair. Efallai ei bod yn fud a byddar. Yn rhywle yn uwch i fyny, dyma'r ci yn dechrau udo. Dyma beth rhyfedd, 'chlywais i erioed mohono yn udo fel hyn o'r blaen, udo uchel dibaid.

Wrth ddod gyferbyn â hi, sylwais ei bod hi'n crio, beichio crio, a'r ochneidiau yn ei hysgytian o'i choryn i'w sawdl, y dagrau yn llifo i lawr ond y cyfan yn hollol ddi-sŵn. Arhosais. Roedd raid i mi aros. Un gwael ydw i am drafod merched sy'n crio. Mae peryg' i mi dorri i grio hefo nhw. Doedd gen i ddim syniad beth i'w wneud.

"Be sy'n bod? Peidiwch crio. Alla'i wneud rhywbeth?" Yr olaf yn llai na gobeithiol oherwydd yr arogl ddrewllyd oedd yn dechrau codi cyfog arna i.

Safwn yna fel llo, ddim yn gwybod beth i'w wneud. Symudais fy ngwialen a'm rhwyd bysgota o un gesail i'r llall, a thynnais fy hances boced allan. Mae'r wraig, chwarae teg iddi, yn gofalu bob amser fod yna hances lân wedi'i smwddio yn fy mhoced. Daliais hi hyd braich.

"Hwdwch."

Roedd ei llaw yn hynod o ysgafn, wrth ei chymryd. Sychodd ei dagrau ac ar yr un pryd, sylweddolais fod udo aflafar Gel, yn dechrau mynd o dan fy ngwinedd. Troiais fy ngolwg i fyny tuag ato. Gwaeddais,

"Bydd ddistaw gi. Be sy'n bod arnat ti?"

Distawodd ar unwaith, ar UNWaith. Troiais yn ôl. Doedd hi ddim yno. Roedd hi wedi mynd. Ni allwn ei gweld yn unman, er ei bod bron mor olau â chanol dydd yng ngolau'r lleuad. Y peth oedd yn fwy o syndod, ni chlywais i mohoni'n mynd. Daeth rhyw gryndod drostof. Roedd y drewdod annisgrifadol yn yr awyr yr un mor gryf, ond roedd hi wedi diflannu.



*Wrth ddod gyferbyn â hi sylwais ei bod yn crio, beichio crio . . .*

Cerddais i ben y bryncyn ac ymlaen at giât y parc. Cefais groeso rhyfeddol gan Gel. Rhedai o'm blaen gan ysgwyd ei gynffon, yn crio a chyfarth yr un pryd. Yn amlwg roedd wrth ei fodd fy ngweld.

Pwy neu beth oeddwn wedi gwrdd? Oedd y ferch yn wir ynteu breuddwyd oedd y cyfan? Daeth rhyw ias oer trostof, a sylwn fy mod yn rhedeg dros Bont Fain. Wrth Tŷ Bugail, arhosaiais a rhoi fy ngêr ar ben y wal. Roedd fy nghoesau'n rhy wan i fynd ymlaen. Ceisiais ddarbwyllo fy hun mai breuddwyd oedd y cyfan ac eto roeddwn yn sicr iddi sefyll yna o fy mlaen, yn ei gwisg laes od, rhy od efallai, gwallt oedd yn rhy hir, yr arogl anioddefol, y drewdod annisgrifiadwy, a dros y cwbwl udo anarferol y ci, yn peidio fel fflach pan ddiflannodd hi o'm golwg. Oeddwn, roeddwn hyd yn oed wedi siarad hefo hi. Ai dychymyg oedd hyn oll.

Gwelais fod fy hances boced yn fy rhwyd bysgota. Codais hi, sychu'r chwys oedd yn rhedeg fel dŵr rhewllyd i lawr fy wyneb a'm gwddf, ond allwn i ddim. Hances lân wedi'i phlygu a dynais o'm poced. Nawr, roedd hi'n swpyn wlyb ddrewllyd.

Taflais hi dros y wal. Os gwn i beth sy wedi mynd ymlaen yn yr hen gastell 'na dros y blynyddoedd?

## DRAENOG



**SÊ NO MOR . . .**

Cefnder imi yn Llanrug yn awyddus iawn imi ddweud wrthoch am rhyw ddyn o'r pentref a frifodd ei gefn yn ddiweddar wrth geisio symud dau wely sengl ar ei gilydd.

Dyma be sy'n gael am fod yn farus ylwch!


LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?



AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

SEINDORF: Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rai prysur iawn i'r Seindorf, yn paratoi ar gyfer dwy gystadleuaeth a oedd o fewn tair wythnos i'w gilydd. Roedd y gyntaf yn Pontins Prestatyn ar Hydref 29. Maent i'w llongyfarch ar ddod yn ail allan o 16 mewn rownd derfynol drwy'r wlad. Tachwedd 19 roedd Rali Flynyddol y NWBBA yng Nghei Connah, a daethant yn gyntaf yn Adran B yno. Roedd cwpan i'w gael i'r chwaraewr Euthonium gorau drwy'r gystadleuaeth i gyd a daeth honno hefyd i Lanrug, i Mr Glyn Hughes.

Rhagfyr 3 fe fydd y Seindorf yn chwarae carolau ym Mhwllheli cyn cwrdd â Siôn Corn; Rhagfyr 17 maent yn chwarae carolau yng Nghaernarfon drwy'r dydd.

Ar Sul y Cofio roedd y Seindorf yn cymryd rhan yn y gwasanaeth yn y Sefydliad Coffa cyn mynd i Gaernarfon i'r gwasanaeth ar y Maes. Chwaraewyd yr Ŵys Olaf a'r Reiveille gan Mr Keith Jones a Mr Dewi Davies.

Mae'r cinio blynyddol ym Mhlas Tandinas ar Ragfyr 17. Cymerir enwau gan Mrs Joyce Jones.

Rhagfyr 21 mae'r Seindorf yn estyn croeso i bawb i ymuno â hwy mewn noson o Garolau yn yr Ysgol Gynradd. Fe fydd paned a 'mins pei' i'w gael.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs R.J. Williams (Crawia gynt), 15 Mytton Park, Dinbych, Mrs Gwynifer Evans ddatgan eu diolch diffuant i gyfeillion a pherthnasau yn Llanrug a'r pentrefi cyfagos am y llu cardiau a'r llythyrau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer annwyl, Mrs Nora Iris Hughes.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r gymdeithas, nos Iau, Tachwedd 3. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Anfonwyd cofion at y chwiorydd sydd yn wael ac yn methu dod atom; diolch iddynt am eu rhoddion at y gwaith.

Gwnaed trefniadau at y Ffair Nadolig a gynhelir ar Ragfyr 1 am 7 o'r gloch yn festri Capel Mawr. Rhoddwyd y coffi gan Mrs N. Jones, Madryn a Mrs M. Lewis, Madryn House. Diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs N. Roberts.

GWELLHAD BUAN: Dymunir adferiad buan i Mrs Erasmus Williams, Bryn Llan a fu dan lawdriniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

CYDYMDEIMLWN: â Mrs Gwen Owen a Jill, Gwesty Muriau, Caernarfon (Plas Hafod gynt) yn eu profedigaeth o golli priod a thad caredig Mr Griffith Owen.

HAFAN ELAN: Mae Mrs E. Willams, Rhif 16 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunwn iddi adferiad buan, hyderwn y cawn ei gweld gartref cyn bo hir.

LLONGYFARCHIADAU i Dr John Glyn Hughes, mab Mrs Hughes, Isfryn, Rhythallt Terrace ar ei benodi'n bennaeth Ysgol Llanidloes. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd fis Ionawr.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Treuliwyd noson ddiddorol yn Festri Pontrhythallt nos Fawrth, Tachwedd 1af, o dan lywyddiaeth Mr Glynne Owen. Y Parch Erfyl Blainey a drefnodd raglen o 'Benigampio' gyda thîm o dri, sef y Parch W.O. Roberts, Mr Selwyn Jones a Mr David Wm Thomas. Talwyn y diolchiadau gan Mr Emrys Owen.

GWELLHAD: Dymunir adferiad i Mr Meurig Jones, 29 Bro Rhyddallt. Cafodd driniaeth yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, ond bellach wedi dod gartref.

Cafodd amryw o drigolion Pontrhythallt fân ddamweiniau yn ystod y mis. Gwellhad buan iddynt, sef Mr Robert Thomas, Gerallt, Mr Hugh Jones, Bronwylfa, Mr R. Williams, 11 Bro Rhyddallt a Mrs Nesta Pritchard, Glanfa.

MUDO: Ymadawodd Mr a Mrs G.E. Ellis, Treflan â'r ardal yn ystod y mis. Bellach maent wedi ymgartrefu yn Seascale, Cumbria. Gobeithio y byddant yn hapus yn eu cylch newydd.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR M.C.: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor y gaeaf o'r Gymdeithas nos Wener 11 dan lywyddiaeth y Parch W.O. Roberts. Cafwyd noson ddiddorol ac amrywiol gan Barti Noson Lawen yr Aelwyd o'r Dyffryn, Sir Fôn. Diolchwyd i'r Parti gan Mr J.W. Owen, Llain Delyn a Mrs J. Davies, Rhyd y Delyn. Darparwyd lluniaeth ysgafn i bawb gan Mrs J. Davies, Rhyd y Delyn, Mrs M. Jones, Ogwen, Mrs T. Parry, Morannedd a Miss M.G. Roberts, Ganllwyd. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y bwyd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Tachwedd 24 pryd y ceir noson o 'Hawl i Holi'.

BEDYDD: Nos Wener, Hydref 28 yn ei chartref, Llechwedd, Rhosbodrual, Caernarfon bedyddiwyd Manon Awst, merch fach y Dr a Mrs Medwyn Williams. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts, Llanrug.

Hefyd brynhawn Sadwrn, Tachwedd 12 yn ei chartref Bryn Derwen, bedyddiodd y Parch W.O. Roberts, Susan Louise, merch fach Mr a Mrs John Alwyn Williams.

Ac yn yr oedfa yn y Capel Mawr, fore Sul Tachwedd 13 a'r Parch W.O. Roberts yn gweinyddu bedyddiwyd Kevin Andrew, mab bychan Mr a Mrs Clive Pritchard, Bryn Elan.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cyfarfu'r clwb bnawn Iau, Tachwedd yn y Sefydliad Coffa. Cyn dechrau cynhaliwyd dau funud o ddistawrwydd er cof am y rhai o'r ardal a gollasant eu bywydau yn y Ddau Ryfel Byd. Croesawyd Mrs Mair Varney, Parc Uchaf fel aelod newydd. Oherwydd galwad annisgwyl nid oedd yn bosib i'r gŵr gwadd fod yn bresennol. Gan fod gwaith trefnu ar gyfer y Gwasanaeth Carolau a'r Ddrama sydd i'w chynnal ym mis Chwefror 1984 penderfynwyd gwneud y gwaith yma yn y cyfarfod.

Rhoddwyd y te gan Mrs Iola Butler, Mrs Megan Williams, Mrs Ceinwen Roberts, Mrs Rhys Owen a Mrs Owen, sef aelodau o Tan-y-coed. Enillwyd y raffl gan Mrs Ina Jones, Bod Ifor. Diolchwyd gan Mr John Williams, Gweledfa.

Cynhelir y cyfarfod nesaf sef y Gwasanaeth Carolau yng Nghapel Hermon am 2 o'r gloch, Rhagfyr 8.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Tachwedd 8 gyda Mrs Ann Llwyd yn y gadair.

Y gŵr gwadd oedd y Dr Derec Llwyd Morgan. Pleser oedd gwrando ar athrylith o athro yn traethu mor ddiddorol ar Hanes y Diwygiad Methodistaidd ac yn arbennig lle'r gwragedd yn y gymdeithas; ddau can mlynedd yn ôl. Diolchwyd i'r athro am anerchiad tra diddorol gan y Dr Eirwen Gwynn.

Mae Mrs Jane Williams, Bryn Eifion gartref o'r ysbyty erbyn hyn ac eiddunwyd iddi adferiad buan.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs Linda Jones, Pant Mwyn ar ran yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwcliar yn Arfon, yn hysbysu'r gangen bod cyfle i aelodau ymuno ym mhrif weithgaredd nesaf yr Ymgyrch, sef y Brotest Fawr yn erbyn Taflegrau Cruise ar Gomin Greenham ar ddydd Sul, Rhagfyr 11. Anogwyd ni gan y llywydd i gefnogi'r merched hyn sydd yn ymboeni ynghylch dyfodol eu plant.

Beth am ddangos ein hochr drwy chwyddo'r nifer fydd yn Greenham ar Ragfyr 11? Cysylltwch â Mrs Linda Jones, Pant Mwyn (Caernarfon 3838) ynglŷn â manylion y teithio.

Rhoddwyd y te gan Mrs Bethanne Williams, Mrs Ann Llwyd, Mrs Mair Hughes, Mrs Owenna Elias a Mrs Margaret Parry. Diolchwyd iddynt gan Mrs K.E. Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Ceinwen Roberts.

Edrychwn ymlaen at gyfarfod mis Rhagfyr, a chael cyfarwyddyd ar wneud Addurniadau Nadolig. Dowch â siswrn efo chwi!



*Mr Dylan Hughes, rheolwr Co-op Llanrug yn siarad gyda Gwyn Williams, cyflwynydd rhaglen Radio Cymru 'Y Co-op' a glywyd nos Fawrth, Tachwedd 29 am 9.30 a.m. a bore Mercher, Tachwedd 30 am 10.30 a.m.*

## TAN-Y-COED

**Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)**

DYMUNIADAU DA: i Mrs Nancy Jones, 6 Rhesdai Bryngwyn ar ei hymddeoliad o'i swydd fel cynorthwraig yn y gegin yn Ysgol Gynradd Llanrug. Pob bendith iddi i'r dyfodol.

Derbyniodd Mrs Jones anrhegion a chardiau lu yn datgan eu dymuniadau da gan blant ac oedolion yr ysgol.

Chwith gan Mrs Jones golli cwmniaeth yr ysgol. Cofir ei sirioldeb a'i pharodrwydd i wasanaethu yr ysgol ac wedyn gyda'r nos pan ddeuai galw i helpu gwahanol adrannau fyddau'n defnyddio'r ysgol ac angen gwasanaeth merched y gegin. Diolch iddi.

GUTO FFOWC: Trwy garedigrwydd Mr a Mrs Chohan, Pant Clyd cafodd nifer o blant ac oedolion noson ddifyr, noson Guto Ffowc yn gwylio'r tân gwyllt a mwynhau bwyd cynnes yr un pryd – bwyd wedi ei goginio yn y man a'r lle yn yr awyr agored, yn eu gardd hwy. Diolch iddynt am estyn y croeso i'w cymdogion yn yr ardal yn ogystal ag i'w cyfeillion personol.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Margaret Humphreys, Clawdd Llwyd a gollodd ei thad yn sydyn ar Dachwedd 15. Bu tad Mrs Humphreys, Mr Islwyn Williams, farw yn ei gartref yn St Leonards on Sea. Cyn symud i'w gartref presennol yr oedd Mr Williams yn byw yn Ty'n Llidiart, Seion – ein cydymdeimlad hefyd â'r teulu oll – ei briod, ei blant a'i wyrion.

## BETWS GARMON

GWELLA: Da gweld Mrs Edwards, Minffordd wedi gwella ar ôl anffawd.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau calonnog i Miss Jean Yvonne Breeze, Ystrad Uchaf ar ei llwyddiant mewn arholiad terfynol R.G.N. (Registered General Nurse). Mae wedi ei derbyn ar staff yr Uned Gofal Arbennig yn Broad Green Lerpwl.

Ellwch fentro bydd Jean bob amser yn barod ei gwên â gair o gysur (yn y Gymraeg, er ei magu ar aelwyd gwbl Seisnig) i'r cleifion o Gymru fydd yn ymweld â'r ysbyty enwog hon.

Bob lwc i'r dyfodol, Jean.

CINIO: Cynhaliwyd cinio blynyddol yng Nghastell Cidwm i aelodau pwyllgor Ymryson Cŵn Defaid nos Sadwrn, Tachwedd 26.

## O BANTRI BETH

**Dyma riset cacen Nadolig i'r rhai diog fel fi yn eu plith!**

- ½ pwys margarin twb (meddal)
- ½ pwys siwgr castor
- 10 owns blawd codi
- 4 ŵy mawr
- 3 owns cnau almwnd wedi eu malu
- 1 owns plisg cymysg
- 1 owns ceirios
- 10 owns cwrents
- 10 owns raisin
- 10 owns swltanas
- 1 llwy de halen
- 1 llwy de speis cymysg
- ¼ peint o rym
- ¼ peint o Guinness

Cymysgwch y cwbl efo'i gilydd a'i roi mewn tun crwn 9". Craswch am awr ar 350°F/Nwy 4. Gorchuddiwch y gacen â phapur brown a'i chrasu ymhellach am tua 3 awr ar 250°F/Nwy ½. Gadewch iddi oeri a storiwch y gacen hyd nes bydd ei hangen.




Brysiwch!
Archebwch eich
**TWRCI NADOLIG**
a'ch
**CYW IÂR**
a PHOB MATH O GIGOEDD ERAILL
YN AWR
gan
**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
PEN CIGYDD Y FRO!
Mynnwch y gorau a dewch atom ni!

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Pat Owen a phawb yn

# SIOP GRON

## PENISARWAUN

A SWYDDFA'R POST

Ffôn: Llanberis 871272



Diolch yn fawr am eich
cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn



## CYFARCHION NADOLIG

# CWM-Y-GLO
# BRYNREFAIL
# PENISARWAUN





*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth*

Ms Gillian Yorath

**Revival** SIOP ELIDIR, BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 870132

*Arbenigwr ar adfer dodrefn a gildio*



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

# MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth



# BRYN A KATHLEEN WILLIAMS

## TANRALLT
## CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 870793

**Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau
Grisiau neu unrhyw fath o
gynnyrch coed**



Dymuna Huw a Barbara

# Gwesty'r Fricsan



(Snowdon Hotel)

## CWM-Y-GLO

Llanberis 289


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr ŵyl.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth John Steele a phawb yn

# GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

## Cwm-y-glo



GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

GWASANAETH
CAEL GWARED Â
CHEIR SGRAP



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

# London Garage

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 870234



# PRACTICAL CREDIT SERVICES LTD

2 WELLFIELD COURT
CAERFFYNNON/WELLFIELD
BANGOR 353269

Ein cynrychiolydd newydd ar gyfer ardal
Llanrug/Llanberis yw

## Mrs VERA PRICE

TANYGRAIG
CWM-Y-GLO
Ffôn: LLANBERIS 870550

Gwasanaeth Credyd Preifat a Chyfrinachol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

DYMUNA
JERRY a MARGARET
WARDLE

SWYDDFA'R
POST
a Stordy
Cwm-y-glo

Ffôn: 870242

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i'w cyfeillion oll

Mae Trefnydd Hysbysebion Eco'r Wyddfa yn chwilio am rhywun i'w helpu gyda'r gwaith o gasglu hysbysebion.

Cyfle rhagorol i helpu'r papur bro, dod i adnabod gŵyr busnes y cylch a dysgu'r grefft o werthu.

Cysyllter â
John Roberts,
Trefnydd
Hysbysebion
Eco'r Wyddfa,
Bedw Gwynion,
Llanrug.
Ffôn: Caernarfon
5605


NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth


C & D.WAGER

Llythyrdy

BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 870241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)**

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Tachwedd dan lywyddiaeth Mrs Hannah Jones, cawsom sgwrs ddifyr gan Mr Gareth Haulfryn Williams, Archifydd Gwynedd. Bu'n siarad yn hwyliog a diddorol am waith pwysig yr Archifdy yng Nghaernarfon. Maent yn diogelu hen bapurau fel Cofrestrau Eglwysi'r cylch a hen gofnodion stadau fel y Faenol a Glynllifon. Maent ar gael yno i rywun sydd â diddordeb mewn hel achau'r teulu neu archwilio hanes yr ardal, ac mae pob croeso i'r rhai sydd yn galw yn yr Archifdy. Dywedodd hefyd y buasai'n falch o hen bapurau diddorol neu luniau, naill ai yn rhodd neu ar fenthyg. Diolchwyd iddo am ei sgwrs gan Mrs Verna Jones.

Rhoddwyd y te a gwobr y raffl gan Mrs Nellie Pritchard a Mrs Hannah Jones ac enillwyd y raffl gan Mrs Margaret Williams. Gwnaed trefniadau at y cyfarfod nesaf pryd y gwahoddir Parti Cadnant, Bethel i'n diddori ar Ragfyr 7.

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol Undeb y Mamau Llanrug a Chwm-y-glo yn y Ganolfan nos Fawrth, Tachwedd 8. Yr oedd y pwyllgor yng ngofal Mrs Watkins ac ar ôl cael gwasanaeth byr i ddechrau diolchodd Mrs Watkins i'r swyddogion am eu gwaith ar hyd y flwyddyn.

Darllenwyd cofnodion o bwyllgor blynyddol 1982 a phasiwyd eu bod yn gywir. Fe gafwyd adroddiad gan y trysorydd. Cytunodd y swyddogion i wneud eu gwaith am flwyddyn arall. Pasiwyd i gael y cinio blynyddol ar nos Iau Ionawr 5 yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug.

Yr oedd y lluniaeth yng ngofal Miss A.C. Jones a Mrs Pierce, Llanrug a diolchwyd iddynt gan Mrs Jones, Lyndale. Enillwyd y raffl gan Miss Gwennie Griffith. Terfynwyd y pwyllgor gyda gweddi.

CLWB Y GRAIG: Cynhelir Gyrfa Chwist Nadolig yn yr Ysgol Gymuned, nos Fercher, Rhagfyr 14 am 7.30 o'r gloch.

Er Cof
am
Emlyn Watkins, Cwm-y-glo

**O'r llwyfan aeth diddanwr – adwaenem**
**Fel dawnus ddigrifwr,**
**Un di-ddig ydoedd y gŵr,**
**E' fynnodd fyw'n fonheddwr.**

**Teyrnged i**
**Llew Hughes**
**Llywydd Clwb Pobol y Cwm**

**Y Llew sydd yn ein llywio – a geidw**
**Y gadair yn gryno,**
**Mae yn frwd er mwyn ei fro**
**Ei gariad nid yw'n gwyro.**

**Un gwrog, teg ei eiriau – yn raddol**
**Mae'n rhoddi ei farnau,**
**Un geirwir gyda'r gorau**
**A gŵr sy'n elyn y gau.**

**R.H. PARRY**
**CAERNARFON**

LLONGYFARCHIADAU: i Kevin Wyn Owen, Talgwynedd, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf a dymunwn wellhad buan i Mr Hugh Jones, Seiont House sydd yn ysbyty Gallt-y-sil, Caernarfon a Mrs Blodwen Williams, Mona, sydd yn ysbyty Dewi Sant Bangor.

DIOLCH: Dymuna Mrs Dora Roberts, Argraig ddiolch i bawb am eu caredigrwydd iddi tra yn yr ysbyty ac wedi dod adref.

Dymuna Mrs Nesta West, 3 Craig y Don ddiolch i bawb am eu caredigrwydd iddi ac am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Dymuna ddiolch i bawb yn Ward Penrhyn, Ysbyty Môn ac Arfon ac i aelodau Clwb Pobol y Cwm ac Undeb y Mamau.

Bore Gwener, Tachwedd 18 cafodd staff y gegin a phlant yr ysgol gyfle i ddymuno'n dda i Mrs M.M. Rowlands ar ei hymddeoliad fel gofalwr yr ysgol. Bu Mrs Rowlands yn gofalu, a glanhau'r ysgol am ddeuddeng mlynedd. Talwyd teyrnged uchel gan Mr E.T. Jones, y prifathro, i Mrs Rowlands am ei gwaith cydwybodol, ffyddlon a thrylwyr yn ystod y cyfnod y bu wrthi wrth y gwaith. Cyflwynwyd siec iddi ar ran y staff, staff y gegin a phlant yr ysgol. Yn ychwanegol at hyn roedd mudiadau o'r pentref sy'n defnyddio'r ysgol gyda'r nos wedi cyfrannu at rodd ariannol iddi. Cyflwynodd Mrs Hilda Orritt, fel ysgrifennydd Pwyllgor y Ganolfan y rhoddion yma i Mrs Rowlands. Roedd Mr Llewelyn Hughes, a Mr Geraint Pritchard, Rheolwyr yr Ysgol yn bresennol, ac unigolion o'r gwahanol fudiadau yn eu cynrychioli. Cafwyd gair gan Mr Llewelyn Hughes ar ran y Rheolwyr. Cyflwynwyd blodau i Mrs Rowlands gan Cheryl Hughes. Diolchodd Mrs Rowlands yn gynnes i bawb am y rhoddion, a'u caredigrwydd.

CLWB POBOL Y CWM: Croesawyd Mr R. Price Jones, Caernarfon i'r clwb brynhawn Iau, Hydref 20. Brodor o'r ardal yw Mr Jones, a mwynhawyd ei sgwrs ar ei atgofion o gymeriadau diddorol yr ardal. Rhestrodd lu o fân siopau oedd yn gyffredin yn y cyfnod hwnnw, ynghyd â theilwriaid, cryddion a seiri. 'Does ddim amheuaeth, meddai, er y tlodi a'r cyni i lawer un yn y dyddiau cynnar y ganrif hon, fod ardalwyr y Cwm wedi creu cymdeithas agos a chroesawgar ac mae'n parhau i fod felly. Diolchwyd iddo gan y llywydd, Mr Llew Hughes. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs West, Craig-y-don sydd yn yr ysbyty. Mrs L. Evans, Gwylfa ddarparodd y baned a Mr a Mrs R. Roberts, Bryn Gro roddodd y raffl, a enillwyd gan Mrs Williams, Mona.

Yng nghyfarfod Tachwedd 3 rhannwyd yr aelodau yn ddau dîm i wynebu cwestiynau wedi eu darparu gan Mr R.H. Parry ar gyfer Cwis. Roedd y cwestiynau yn amrywiol a chafwyd atebion boddhaol. Tîm y llywydd a orfu. Dymunwyd yn dda i Mr a Mrs R. Rowlands ar eu hymddeoliad fel goflawyd yr ysgol.

Rhoddwyr y te oedd Mrs Hughes, Bryn a Mrs Pritchard, Bryn Gwynedd. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Jones, Seiont House, gan Mrs Williams, Mona.

# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Nhŷ Glas, dan ofal swyddogion rhanbarth Mrs Betty Marshall a Katy Wyn Jones. Etholwyd Mrs Pat Jones yn gadeirydd, Mrs Carol Houston yn ysgrifennydd a Mrs Griffiths yn drysorydd. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Moira Ellis ac fe'i enillwyd gan Mrs Betty Owen. Darparwyd y te gan Pat Jones a Betty Owen.

CLWB 80: enillwyr mis Hydref: 7: 1. Norma Green, 2. Phyllis Jones, 3. Megan Jones. 14: 1. Helen Roberts, 2. Jenny Hughes, 3. Alwyn Jones. 21: 1. Sheila Williams, 2. Lewis Esposito, 3. Haydn Lewis. 28: 1. John O. Jones, 2. Meurig Jones, 3. Shirley Roberts.

CLWB Y MAMAU: Daeth nifer o aelodau at ei gilydd i Dŷ Glas a chafwyd noson o gystadlu a drefnwyd gan Moira Ellis. Rhoddwyd anrheg y mis gan Peggy Davies ac fe'i enillwyd gan Mair Williams. Rhoddwyd y te gan Audrey Roberts a Shirley Roberts.

DATHLU 18 OED: Llongyfarchiadau i David Maldwyn Jones, Ty'n Twll ac hefyd i Janet Elizabeth Jones, Tremeilian ar gyrraedd y nod arbennig yma yn ystod y mis a aeth heibio. Pob dymuniad da a llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

DATHLU 80 OED: ar Dachwedd 11. Llongyfarchiadau i Mrs Jinnie Roberts, Ffrwd Goch. Da yw datgan hefyd fod Mrs Roberts wedi gwella wedi'r anffawd a gafodd yn ddiweddar.



# RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

**£5.00** – Mr a Mrs R.J. Williams, 15 Mytton Park, Dinbych; Di-enw, Llanrug; Mrs Marion Jones, Sain Ffagan, Caerdydd; Siop Chips, Snowdon Valley, Llanberis, E. Roberts, Y Garreg Wen, Talysarn.

**£2.00** – Mr a Mrs B. Evans, Isallt, Llanberis; Teulu Prenteg, Deiniolen; Mr a Mrs M. Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs M.S. Jones, Tŷ Croes, Ty'n Lôn, Caergybi.

**£1.00** – Goronwy a Mair Lewis a'r teulu, 45 Cae Bold, Caernarfon; Mr a Mrs O. Hughes, Erw Fair, Deiniolen; Mrs Elizabeth Jones, Pentre Castell, Llanberis; Mrs Margaret Williams, Carrog, Penisarwaun; Mrs E. Roberts, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Mary Davies, 9 Llys-y-gwynt (872329)

YSGOL TAN-Y-COED: NEWID SWYDD: Dymuniadau gorau i Mrs Margaret Williams, a'n gadawodd wedi naw mlynedd fel aelod o staff y gegin. Boed iddi lwyddiant yn ei swydd newydd yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CASGLIAD 'OXFAM': Diolch i bawb gyfrannodd at y £21.25 a drosglwyddwyd i fudiad Oxfam.

GWASANAETH NADOLIG: Eleni fe gynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn Eglwys Santes Helen nos Wener, Rhagfyr 16 am 6.30.

DIOLCH: Dymuna Mrs Margaret Williams, Carrog ddiolch yn fawr i staff, disgyblion a rhieni Ysgol Tan y Coed am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da.

Dymuna deulu'r ddiweddar Nancy Hughes, Lancelot, King Arthur ddiolch o galon i'w perthnasau a'u ffrindiau oll am gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain garedig. Diolch yn fawr.

DIOLCH: ar ran plant ac oedolion y pentref i'r rhai oedd yn gyfrifol am drefnu'r Noson Tân Gwyllt eleni. Diolch iddynt hefyd am ddarparu lluniaeth ar y noson. Braf yw gweld rhai yn fodlon trefnu ar ein cyfer fel hyn.

DIOLCHGARWCH: Dymuna Mrs Eluned Porter, Llys y Gwynt ddiolch i'r bonheddwr a ddaeth i'w chynorthwyo i hel dillad yn y tywyllwch, a rhyddhau pâr o sanau oedd wedi chwipio am y polyn.

CAPEL BOZRA: Bu cyfarfod Diolchgarwch undebol Capel Bozra a'r Waun ddydd Sul, Hydref 18. Cafwyd cynulleidfa dda iawn fel arfer. Yn y bore cawsom eitemau o ganu ac yn y blaen gan y plant. Maent i'w canmol am eu gwaith. Mrs Ann Evans, ac athrawon yr Ysgol Sul oedd wedi eu hyfforddi, a Mrs Evans oedd wrth yr organ hefyd.

Yn y prynhawn cafwyd pregeth gan y Parchedig Roger Roberts, Llandudno. Yn ystod yr oedfa cydymdeimlwyd â Miss Elinor Jones, Bron y Waun ar golli ei modryn yn Lerpwl.

Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Gweddi gan y chwiorydd. Y rhai a gymerodd ran oedd: Mrs Margaret Munro, Mrs Eluned Jones, Mrs Bessie Williams, Mrs Eirlys Jones, Miss Mair Foulkes, Mrs Nancy E. Jones, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Percy Williams gyda Mrs Nancy Jones wrth yr organ yn y prynhawn a'r hwyr.

Cafwyd arddangosfa o ffrwythau, llysiau a blodau, wedi'u rhoi gan y plant a'r aelodau. Cyflwynwyd y rhoddion i Blas Pengwaith, Llanberis.

EGLWYS Y SANTES HELEN: Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau, nos Lun, Tachwedd 7. Cafwyd sgwrs gan y Ficer ar 'Y Bedydd'. Rhoddwyd y te gan Mrs O.C. Roberts.

Cydymdeimlwn â Mrs S. Jones a Mrs A. Webb yn eu profedigaeth o golli eu mam, y ddiweddar Mrs N. Hughes, Launcelot.

Bedyddiwyd Stephen Jones, ddydd Sul, Hydref 13. Cymerodd plant yr Ysgol Sul ran yn y gwasanaeth.

Dymunwn wellhad buan i Mrs G. Thomas, Tai Newyddion sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Eryri.

Llongyfarchiadau i Tony Oulton ar ei ddyweddïad gydag Eifiona o Gaernarfon. Hefyd i Eleri, Tan y Gaer gynt, ar ei dyrchafiad yn Chwaer mewn ysbyty yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlwn â Mrs Ann Jones, Ty'n Gerddi, Waun sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar.

Dymuniadau da i Mrs E. Roberts, 12 Llys y Gwynt sydd wedi dod adref o'r ysbyty. Fe garai Mrs Roberts ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty, hefyd am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd.

Dymuna Mrs S. Humphries, Y Winllan ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed, ac hefyd tra bu yn yr ysbyty.

Dymuniadau da am wellhad buan i Mr J. Munro, Tŷ Capel sydd wedi bod yn yr ysbyty ym Mangor.

CLWB YR HEULWEN: Bu cyfarfod ddydd Mawrth, Tachwedd 15. Nid oedd siaradwr ond fe gafwyd pnawn difyr yn rhydd-ymddiddan. Rhoddwyd y te gan Mrs B. Evans a Mrs M.I. Evans. Enillodd Mrs G. Lewis y raffl. Bydd y bws yn cychwyn am 7 o'r gloch nos Wener, Rhagfyr 9 i'r Swper Nadolig yng Ngesty Glaslyn.

Cafwyd noson goffi a chyngerdd gan rai o blant y pentref wedi cael eu hyfforddi gan Mrs J. Turner, nos Wener, Hydref 28. Rhoddwyd yr elw tuag at 'Farchogaeth i'r Anabl'. Diolch yn fawr i bawb.

### YN EISIAU : CAE I'W OSOD AR RENT

Y mae angen cae i'w osod ar rent ar gyfer Ysgol Gynradd Penisarwaun a phlant yn gyffredinol. Os oes gan unrhyw un sydd yn berchen tir ddiddordeb mewn gosod cae ar rent i'r awdurdodau (Cynghorau Gwynedd ac Arfon) gofynnir i chwi, os gwelwch yn dda, gysylltu â Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun. (Ffôn: Llanberis 870533).

Eglwys y Santes Helen

**4.12.83**: 10.30 – Cymun y Canmlwyddiant – Yr Esgob J. Cledan Mears
Ceir bwyd yn y Neuadd ar ôl y Gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.
**7.12.83**: 10.30 – Cymun
**11.12.83**: 10.45 – Drama Nadolig y Plant
2.00 – Gwasanaeth Undebol yn Bosra
**13.12.83**: 10.30 – Gwasanaeth Cymun i ddiolch am Ganmlwyddiant – Eglwys y Santes Helen
**16.12.83**: 6.30 – Gwasanaeth Nadolig Ysgol Tan y Coed
**18.12.83**: 10.45 – Boreol Weddi
3.00 – Gwasanaeth 'Christingle'
**21.12.83**: 10.30 – Cymun
**24.12.73**: 11.30 – Cymun Undebol y Nadolig
**25.12.83**: Dim gwasanaeth

**LLYFR CANMLWYDDIANT**
**EGLWYS Y SANTES HELEN**
**PENISARWAUN**
**AR WERTH**
**YN SIOP GRON**
**PRIS: £1.50**

**AM DDIM,**
**OND EI NÔL**
**LLWYTH O BRIDD**
**John E. Williams, Y Gors,**
**Allt Riwth, Pontrhythallt**



Nadolig
Llawen

# NANT PERIS

## 30 MLYNEDD O WASANAETH



*J.W. Elis (Perisfab), Nant Peris yn derbyn rhodd gan ei gyfeillion ar Gyngor Cymdeithas Llanberis fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i wasanaeth fel cynghorydd am 30 mlynedd. O'r chwith i'r dde, o amgylch Perisfab mae Selyf N. Hughes (is-gadeirydd), Islwyn L. Jones (clerc), O.W. Humphreys (Nant), Bert Parry (cadeirydd).*

GOBEITHLU: Agorwyd tymor y Gobeithlu yn Rehoboth nos Iau, Tachwedd 17 dan ofal T. Gwyn Pritchard. Cafwyd noson ddifyr iawn hefo Mr Kenneth Jones, Llanberis yn dangos sleidiau a dynnwyd ganddo o drigolion y Nant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwerthfawrogwyd ei gyfraniad yn fawr gan y plant.

NEWYDDION: Os bydd gan rhywun newyddion yn yr ardal a fuasech yn eu hanfon i Jean Elis os gwelwch yn dda.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs J. Shefferin, Bryn Fforch ddiolch o galon i gyfeillion am y cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd Mrs Shefferin tra yn yr ysbyty yn Llundain.

YN YR YSBYTY – Ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau gorau i Mr J.W. Elis, 8 Glanrafon sydd yn Ward Mona, Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. – Gol.

# WAUNFAWR *(Parhad)*

CYDYMDEIMLWN: â Mr John Tame, Stâd Glynafon yn ei brofedigaeth o golli tad;. a Mrs Morfa Evans, Preswylfa ar golli chwaer; â Mr Bryn Jones, 4 Stâd Tŷ Hen ar golli mam; a hefyd â theulu y ddiweddar Mrs Smith, Gors.

Cydymdeimlwn â Mrs Mary Griffith, Bodlondeb a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu farw Mr A. Griffith ar Dachwedd 23.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Ann Evans Williams, Gwynllys gynt, ar gyrraedd ei phen-bwydd yn 92 oed, Tachwedd 19, ac i Miss M. Roberts, Glan Aber ar ei phen-blwydd yn 80 oed.

YR EISTEDDFOD: Cynhaliwyd yr eisteddfod ardal eleni ddydd Sadwrn, Tachwedd 12 yng nghapel Croesywaun. Y beirniaid oedd – Cerdd: Mrs Gwennant Pyrs Roberts, Adrodd a Llên: Mr John Hywyn, Gwyddor Tŷ: Mrs Antionette Hughes, Arlunio a Ffotograffiaeth: Mr W. Selwyn Jones. Y llywyddion oedd Mr Dei Tomos a Mr Gareth Miles. Y cyfeilyddion oedd Mrs Ann Marston a Mr Brian Williams. Arweiniwyd y cyfarfodydd gan Mrs Myra Turner, Mrs Marion Iwan, Mr Gareth Jones a Mr Norman Williams. Diolch i Mrs Jenny Jones am gynorthwyo gyda'r plant bach, ac i bawb am yr holl waith a wnaethpwyd tuag at wneud yr eisteddfod hon yn llwyddiannus. Yn enwedig Mrs Irene Roberts, Pant Teg, yr ysgrifenyddes.

Yr enillwyr oedd:

Cyfarfod y Prynhawn:

Adrodd: Dan 4 oed: 1. Richard, Jones, 2. Pawb arall yn gyfartal. **4-6 oed:** 1. Huw Gwilym, 2. Mathew Jones, 3. Heddus Gwynedd. **6-8 oed:** 1. Delyth Jones, 2. Meilir Gwynedd, 3. Elin Gwilym. **8-10 oed:** 1. Ella Wyn Jones, 2. Osian Gwynedd, 3. Rhys Siôn. **10-12 oed:** 1. Nia Lloyd Jones, 2. Gwennan Jones, 3. Euros Wyn. **Parti Adrodd dan 9 oed:** 1. Parti Gavin, 2. Ffrindiau E.T. **Parti Adrodd 9-12 oed:** 1. Y Frenni, 2. Superboys, 3. Bodhyfryd.

**Cerdd:**

**O dan 4 oed:** 1. Pawb yn gyfartal.

**4-6 oed:** 1. Gerallt Jones, 2. Ffion Edwards, 3. Heddus Gwynedd. 6-8 oed: 1. Meilir Gwynedd, 2. Elin Gwilym, 3. Delyth Jones. **8-10 oed:** 1. Alaw Jones, 2. Martin Roberts, 3. Rhys Siôn. **10-12 oed:** 1. Karen Roberts, 2. Gwennan Jones, 3. Nia Llwyd Jones. **Parti Unsain dan 9 oed:** 1. Parti Pant Afon. **Parti Unsain 9-12 oed:** 1. Ebolion, 2. Merlod. **Cân Actol dan 10 oed:** 1. Merched Hawaï, 2. Y Dyn Eira, 3. Ysgol Feithrin a Wil Cwac Cwac. **Unawd Piano dan 9 oed:** 1. 1. Elin Gwilym, 2. Alaw Jones, 3. Meilir Gwynedd. **Unawd Piano 9-12 oed:** 1. Karen Roberts, 2. Gwennan Jones, 3. Rhys Siôn. **Parti Recorders dan 9 oed:** 1. 1. Parti Alaw a Rhodri. **Parti Recorders 9-12 oed:** 1. Parti Telor.

**Llên:**

**Dosbarth 1 a 2 Ysgol Waunfawr:** 1. Osian Gwynedd, 2. Bethan Wyn, 3. Sam Pierce. **Dosbarth 3 a 4 Ysgol Waunfawr:** 1. Telor Iwan, 2. Rhys Siôn, 3. Ella Wyn Jones a Nia Llwyd Jones.

**Arlunio:**

**Plant Oed Meithrin:** 1. Manon Wyn Evans, 2. Valerie Wyn Roberts, 3. Kevin Davies. **Dau ddosbarth babanod Ysgol Waunfawr:** 1. Deian Elfryn, 2. Penny Twigg, 3. Anwen Jones a Tracy Jones. **Dosbarth 1 a 2 Ysgol Waunfawr:** 1. Sam Pierce, 2. Geraldine Henderson, 3. Leanne Mallison a Heidi Heyes. **Dosbarth 3 a 4 Ysgol Waunfawr:** 1. Telor Iwan, 2. Mark Basterfield, 3. Gareth James Davies.

Gwaith Llaw:

Dau ddosbarth babanod Ysgol Waunfawr: 1. Iona Williams, 2. Anwen Jones, 3. Tracey Jones a Geraint Roberts. **Dosbarth 1 a 2 Ysgol Waunfawr:** 1. Leanne Mallison, 2. Osian Gwynedd, 3. Bethan Wyn. **Dosbarth 3 a 4 Ysgol Waunfawr:** 1. Gareth James Davies, 2. Rachel Pierce, 3. Suzanne Jacobs a Telor Iwan.

**Cyfarfod yr Hwyr**

**Adrodd:**

**12-15 oed:** 1. Nan Wyn Jones, 2. Siân Llwyd Jones, 3. Elliw Iwan. **15-18 oed:** 1. Gwyneth Ellis. **Dros 18 oed:** 1. Myra Turner, 2. Eurig Wyn. **Parti Adrodd dan 18 oed:** 1. Parti Tan y Fron. **Parti Adrodd dros 18 oed:** 1. Parti Pant Teg, 2. Parti'r Wylan. **Sgets neu Gân Actol:** 1. Y Rabscaliwns.

**Cerdd:**

**Unawd Recorder dan 12 oed:** 1. Telor Iwan ac Osian Gwynedd, 2. Gwennan Jones, 3. Dylan Jones. **Unrhyw offeryn cerdd dan 12 oed:** 1. Karen Roberts, 2. Gwennan Jones, 3. Telor Iwan. **Unawd offeryn cerdd 12-15 oed:** 1. Iwan Ellis, 2. Joanna Marston, 3. Elliw Iwan. **Unawd offeryn cerdd 15-18 oed:** 1. Anthony Marston. **Enillydd Tarian Mr Leslie Jones:** 1. Iwan Ellis. **Unawd Piano 12-15 oed:** 1. Wayne Owen, 2. Iwan Ellis, 3. Joanna Marston. **Gwobr Goffa Mrs Rear:** 1. Elin Gwilym. **Unawd 12-15 oed:** 1. Huw Ynyr Jones, 2. Wayne Owen, 3. Siân Rowlands ac Elliw Iwan. **Unawd Cân Werin dan 18 oed:** 1. Rhys Siôn, 2. Huw Ynyr Jones, 3. Elliw Haf Iwan. **Unawd Cerdd Dant dan 18 oed:** 1. Elliw Iwan, 2. Telor Iwan. **Deuawd dan 18 oed:** 1. Karen Roberts a Siân Jones, 2. Wayne Owena Siân Rowlands. **Parti Deulais dan 18 oed:** 1. Parti Wayne. **Unrhyw Emyn dros 40 oed:** 1. Mr Wmffra Jones, 2. Mr Alun Williams, 3. Mr Gwyn Davies. **Unawd Cân Werin dros 18 oed:** 1. Eurig Wyn. **Unawd Gymraeg Agored:** 1. Mr Wmffra Jones a Mr Alun Williams. **Deuawd Agored:** 1. Mr Peter Marston a Mr Bob Eagles. **Parti Agored:** 1. Parti Rob, 2. Parti Eilian.

**Llên:**

**11-15 oed:** 1. Llion Iwan, 2. Karen Roberts, 3. Nan Wyn a Siân Llwyd. **Agored: Brawddeg:** 1. Rhian Ellis. **Hysbyseb Bersonol:** 1. Gillian Wyn. **Stori Arswyd:** 1. 1. Gwyneth Ellis, 2. Marion Iwan. **Ysgrif i'r Dysgwyr:** 1. Mrs Margaret Eaglestone. **Parodi:** 1. Eurig Wyn. **Llinell Goll:** 1. John Jones (Hafod).

**Arlunio:**

**11-15 oed:** 1. 1. Joanne Tame, 2. Karen Roberts, 3. Adrian Owen. **Agored:** 1. Maureen Griffiths.

**Coginio:**

**Dan 15 oed:** 1. Rhodri Siôn, 2. Rhys Siôn. **Agored: Teisen Siocled:** 1. Beryl Jones, 2. Rhian Evans, 3. Gillian Wyn. **Taffi Triog:** 1. Myra Turner, 2 a 3. MrsJones Evans.

**Gwaith Llaw:**

**11-15 oed:** 1. Joanne Tame. **Gwau Siwmper:** 1. Mrs K. Wyn Jones, 2. Beryl Lloyd Jones, 3. Llinos Cadwaladr. **Gwau Pullover:** 1. Llinos Cadwaladr, 2. Nan Roberts.

**Ffotograffiaeth:**

**Llun o olygfa wledig:** 1. John Huws Roberts, 2. Mrs K. Wyn Jones, 3. Mr Wyn Jones. **Tair Sleid yn dangos Byd Natur:** 1. John Huws Roberts.

# DYDDIADUR

**1, Iau:** WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai – yng nghwmni Mr Rhodri Prys Jones.
Sefydliad y Merched – yng nghwmni Mrs Pat Jones, Brynrefail. 'Addurno Cacennau'
LLANRUG: Ffair Nadolig Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr am 7 o'r gloch yn y Festri.
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Clwb Elidir.
YR ARDAL: Clwb Eryri – yng nghwmni Mr Emyr Jones, Caernarfon.
LLANBERIS: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty Fictoria.
Cynhelir cyfarfod blynyddol o Bwyllgor Cyhoeddusrwydd Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.
**2, Gwener:** DEINIOLEN: Noson Goffi er budd Cronfa'r Ganolfan.
Bingo dan nawdd y Seindorf yn Ysgol Gwaun Gynfi am 8.00
**4, Sul:** DEINIOLEN: DINORWIG: PENISARWAUN: Cymun y Canmlwyddiant yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun am 10.30.
**5, Llun:** BETHEL: Cinio Nadolig Clwb Bro Rhos yn y Foelas, Llanrug
DEINIOLEN: Sefydliad y Merched – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30
**6, Mawrth:** LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol – yng nghwmni Mr John Roberts, Y Groeslon
**7, Mercher:** YR ARDAL: Sefydliad y Merched – Gŵyl Garolau yn Eglwys Llanddinorwig
WAUNFAWR: Yr Urdd – Noson o ganu Carolau yng nghwmni Dafydd Iwan yn Neuadd yr Eglwys rhwng 6.30 a 7.30 gyda phaned a 'mins pei'
CWM-Y-GLO: Merched y Wawr – Noson yng nghwmni Parti Cadnant, Bethel
**8, Iau:** LLANBERIS: Sefydliad y Merched yn y Ganolfan
LLANRUG: Gwasanaeth Carolau Clwb Blodau'r Grug yng Nghapel Hermon am 2.00
Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr – Noson yng nghwmni Parti Cennin, Llanberis
BETHEL: Cynhelir Bore Coffi yr Ysgol Feithrin rhwng 10.30 a 11.30
**9, Gwener:** LLANBERIS: Clwb yr Henoed
DEINIOLEN: Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug
Bingo dan nawdd y Seindorf yn Ysgol Gwaun Gynfi am 8.00
WAUNFAWR: Cynhelir Ffair Nadolig er budd yr Eglwys yn Neuadd yr Eglwys am 6.30
**10, Sadwrn:** LLANBERIS: Cynhelir Bore Coffi Plaid Cymru yn y Llyfrgell Newydd, Caernarfon o 10.00 hyd 12.00 o dan nawdd Pwyllgor Merched Arfon
**11, Sul:** PENISARWAUN: Drama Nadolig Plant Eglwys Santes Helen am 10.45
**12, Llun:** LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St John yn y Ganolfan am 7.30
**13, Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr – noson yn gwneud addurniadau Nadolig
WAUNFAWR: Theatr Bara Caws yn perfformio'r ddrama 'Chwara Plant' yn Neuadd yr Eglwys. Yr elw er budd Cronfa'r Ganolfan
**14, Mercher:** LLANBERIS: Clwb y Mamau
LLANRUG: Cinio Nadolig yr Henoed yn yr Ysgol Gynradd am 7.00
BETHEL: Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty Plas Tandinas, Dinas Dinlle
CWM-Y-GLO: Cynhelir Gyrfa Chwist y Nadolig dan nawdd Clwb y Graig yn yr Ysgol am 7.30
**15, Iau:** WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai – Gwasanaeth o Garolau gyda phlant yr Ysgol Gynradd yn Neuadd yr Eglwys
Bore o Baned a 'Mins Pei' yn yr Ysgol Feithrin am 10.00
LLANBERIS: Disgo'r Urdd yn neuadd Ysgol Dolbadarn am 6.00
YR ARDAL: Theatr Bara Caws yn perfformio 'Chwara Plant' yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug am 7.30
**16, Gwener:** DEINIOLEN: Cyfarfod Cyffredinol y Ganolfan
Bingo dan nawdd y Seindorf yn Ysgol Gwaun Gynfi am 8.00
PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Tan y Coed yn Eglwys y Santes Helen am 6.30
**17, Sadwrn:** LLANRUG: Cinio Nadolig y Seindorf ym Mhlas Tandinas, Dinas Dinlle
LLANBERIS: Cinio Nadolig y Cwmni Drama yng Nghastell Cidwm
**18, Sul:** LLANBERIS: Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau gan blant Ysgol Dolbadarn yn Eglwys Sant Padarn am 5.30
DEINIOLEN: Drama Nadolig Plant Eglwys Crist, Llandinorwig am 2.00
Gwasanaeth Carolau yn Libanus am 5.30
**19, Llun:** LLANBERIS: Gyrfa Chwist Nadolig dan nawdd y Clwb Pêl-droed yng Ngwesty Dolbadarn am 7.30
Disgo dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan
**20, Mawrth:** WAUNFAWR: Bydd Siôn Corn a Chôr o Garolwyr yn mynd o gwmpas y pentref gan orffen gyda noson gymdeithasol yng Ngwesty Bryneirian
**21, Mercher:** DEINIOLEN: Recordio Rhaglen BBC 'Piniwn' yn y Ganolfan
LLANRUG: Noson o Garolau gyda'r Seindorf yn yr Ysgol Gynradd gyda phaned a 'mins pei'
**22, Iau:** YR ARDAL: Ysgolion yn cau am Wyliau'r Nadolig
**25, Sul:** DEINIOLEN: Eglwys Crist, Llandinorwig – Cymun y Nadolig am 10.30
DINORWIG: Eglwys Sant Mair – Cymun y Nadolig am 9.30
**30, Gwener:** DEINIOLEN: Bingo Fawr dan nawdd y Seindorf am 8.00

**Dyddiadau i'w Cofio**

**Ionawr 5:** Cinio Blynyddol Undeb y Mamau Llanrug a Chwm-y-glo yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug
**Ionawr9:** Yr Ysgolion yn ail agor

**Dymunaf Nadolig Llawen i chwi**

## ATEBION CROESAIR TACHWEDD

AR DRAWS: 1. Calon, 5. Dinam, 8. Ehangfa, 9. Ruban, 10. Incwm, 11. Fotio, 12. Tu, 13. Deifiol, 17. Taw, 18. Wel, 20. Stiward, 24. Tŷ, 26. Unawd, 27. Ofera, 28. Egino, 29. Nefyn, 30. Dianc, 31. Irad.
I LAWR: 1. Cornant, 2. Lobscows, 3. Nenfwd, 4. Pantri, 5. Daioni, 6. Nico, 7. Mamgu, 14. Elw, 15. Fôr. 16. Lwc mwnci. 19. Lôn goed. 21. Ieuanc. 22. Atalfa. 23. Dadeni, 24. Troad, 25. Hela.
**ENILLYDD:** Ann Lloyd Griffith, Hawddamor, Llanrug.


# Awdurdod Datblygu Cymru

## A ydych chi mewn busnes? A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

# Welsh Development Agency

Mae
**G. JORDAN**
**CEFN ELAN LLANRUG**
wedi prynu busnes
**ERIC GOVER LLANBERIS**
I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen
Ffoniwch:
**CAERNARFON 3581**



Rhwng recordiau Stuart Burrows a Chôr Aelwyd Cwmrhydychwadods mae hosan Nadolig Sain yn orlawn!
Digon o ddewis – rhywbeth i blesio pawb.
**Côr Meibion Llanelli** Gwawr y Geni *Song of Hope* Sain 1285D C885 £4.99
Record newydd un o gorau mwyaf poblogaidd Cymru, carolau a chaneuon am y Dolig
**Stuart Burrows** Sain 1293D C893 £4.99
Record gyntaf y tenor byd enwog i Sain. Yr hen ffefrynnau Cymraeg.
**Côr Ysgol Glan Clwyd** 'Ganwyd Crist i'r Byd' Sain C525 £4.99
Y caset o'r record boblogaidd ar gael am y tro cyntaf
**Gŵyl Gerdd Dant y Bala** Sain 1285D C885 £4.99
I ddathlu pen-blwydd y gymdeithas cerdd dant yn 50 oed
**Parti'r Ffynnon** 'Ffrydiau Melys' Sain 1279D C879 £4.99
Record arall gan y parti dawnus o Glwyd
**Aled Jones** Sain 1294D C894 £4.99
Y soprano ifanc o Landegfan, Môn ar record am y tro cyntaf
**ROC A CHANU YSGAFN**
**Maffia Mr Huws** 'Yr Ochr Arall' Sain 1286M C886N £4.99
Y grŵp a wnaeth y rege'n rhacs ac a roddodd y gitâr yn y to
Record hir gyntaf grŵp mwyaf poblogaidd y flwyddyn
**Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr** 'Macsen' Sain 1289M C889N £4.99
Y caneunon gwych o'r ffilm deledu. Mae Jarman yn ei ôl – ac ar ei orau!
**'Sesiwn Sosban'** Sain 1292H C892G £4.49
Rhai o'r caneuon gorau a recordiwyd ar gyfer 'Sosban' ar y radio.
Caneuon arbennig gan Ail Symudiad, Rohan, Louis a'r Rocyrs, Y Brodyr, Sian James a Rhys Harries, Morgan, Gwallter, Doctor, Ceffyl Pren, Geraint Lovegreen, Gari Prysor, a Coch glas chwythu mas.
**Y Diawled** Sain 101S £1.25
Sengl gyntaf 'Y Diawled' a 'Dewch gyda Ni'
**Leah Owen** 'Y Gyfrinach Fawr' Sain 1288M C888N £4.99
Ei record gyntaf ers tair blynedd. Caneuon cofiadwy mewn sawl arddull.
**Delwyn Siôn a Chôr Aelwyd Cwmrhydychwadods** 'Nadolig yng Nghwmrhydychwadods'
Mwy o ganeuon gan Delwyn a'r chwadods poblogaidd. Fedrwch chi ddim joio'r Dolig heb hon!

**CASETIAU NEWYDD**
**W.H. Roberts** 'Darlith "Iaith Lafar" ' TRF 266 £3
Dawn un o wŷr mawr Môn, y diweddar W.H. Roberts
**'Cadw'n Heini'** TRF 267 £3
Y cwrs cyntaf o'i fath yn Gymraeg! Collwch bwysau i sŵn caneuon Cymraeg!
*Nadolig Llawen a Heddychlon oddi wrth*
**Sain Llandwrog Caernarfon**
**Ffôn (0286) 831.111**
sain (Recordiau) Cyf

# CHWARAEON

## MARATHON ERYRI



*Cynffon hir o redwyr ar ddechrau eu taith i fyny Bwlch Llanberis a 26 milltir o redeg.*

**Er gwaethaf y tywydd diflas, mentrodd 460 o redwyr ar y farathon galetaf o bosibl, sef 26 milltir o amgylch yr Wyddfa. Yr enillydd eleni eto oedd Jeff Norman, fferyllydd o Stockport. Roedd wedi gwthio i'r blaen ym Meddgelert, ac yr oedd yn gadael mwy a mwy o wagle rhyngddo a'r rhedwyr eraill oddi yno ymlaen. Roedd dros 8 munud ar y blaen i'r ail yn cyrraedd Llanberis (sef tua milltir a hanner) a thorrodd ei record ei hun o bedwar munud, gan orffen mewn amser o 2 awr, 29 munud a 38 eiliad.**


Y rhedwr lleol cyntaf oedd Malcolm Jones o Dremadog, aelod o Glwb Rhedwyr Eryri, a ddaeth yn bedwerydd yn y ras, gan wella ar ei amser y llynedd. Jean Robertson o Borthmadog, aelod o Redwyr Eryri, enillodd yr adran i ferched, gan dorri ei record ei hun o dros naw munud, a gorffen mewn 3 awr 33 munud a 25 eiliad.

Daeth rhedwyr lleol eraill i mewn o dan 3 awr a hanner, gan gynnwys Dafydd Ellis, Caernarfon (Llanberis gynt) ac Ashley Wager o Gwm-y-glo. Daeth Alan Jones yn ôl i'w hen gynefin a rhedeg ras dda i orffen mewn 3 awr ac 20 munud.



*Alan Jones, Llundain, gynt o fro'r Eco yn cyrraedd y llinell derfyn.*

## Y CYNTAF



*Jeff Norman yn edrych yn ddigon cyfforddus i redeg y ras unwaith eto!*

## LLANRUG – O'R DYDDIAU A FU

21 Bro Rhos
Bethel

Annwyl Olygydd,

Ar dudalen 'Chwaraeon' yn rhifyn Tachwedd o'r Eco, mae yna lun o tîm pêl-droed Llanrug "o'r dyddiau a fu".

Yn y rhes ôl, y trydydd o'r dde mae fy nhad, y diweddar D.T. Edwards (Dafydd Tom gan ei gyd-chwaraewyr).

Er mai i dîm Llanberis oedd fy nhad yn chwarae yn swyddogol, efallai mai "llenwi bwlch" oedd o yn y llun hwn.

Ar ôl holi, cefais wybod mai rhwng 1930-36 tynnwyd y llun, dim hwyrach na hynny. Efallai fod yna ddarllenwr arall o'r Eco yn medru rhoi dyddiad agosach na hyn. Buaswn yn falch o glywed gan rhywun sydd yn cofio'r llun, ac yn medru dweud sut daeth fy nhad i fod ynddo.

Yn gywir,
Diane Roberts



*Mae golwg ffyddiog iawn ar ambell un wrth redeg trwy'r nant ar ddechrau'r ras.*

## CYNGHRAIR GRICED I FRO'R 'ECO'?

**Ffurfiwyd tîm criced am y tro cyntaf yn yr ardal yr haf diwethaf. Tîm o fechgyn yn bennaf, o bentrefi Llanrug a Phenisarwaun a fu'n chwarae amryw o gemau cyfeillgar.**

**Mae bechgyn Llanberis eisoes wedi dweud fod ganddynt ddiddordeb mewn ffurfio tîm ac mae staff a bechgyn Ysgol Brynrefail yn awyddus i chwarae ychydig o gemau. Fe fyddai timau o Fethel, Deiniolen a'r Waunfawr yn gwneud cynghrair fechan o chwech tîm. Fe fydd llain 'artifisial' (rhyw fath o garped nylon) ar gae Ysgol Brynrefail erbyn yr haf nesa' ac fe fyddai'n bosib' chwarae'r holl gemau ar gae'r ysgol.**

**Os oes diddordeb cysylltwch â Dic Parry Ysgol Brynrefail.**

## PŴL NODDEDIG



Rhwng 8 o'r gloch nos Iau, 27ain o Dachwedd ac 8 o'r gloch y noson wedyn, chwaraewyd 263 o fframiau pŵl noddedig yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis er mwyn codi arian i Gronfa Arennau Llanberis a'r cylch.

Sefydlwyd y Gronfa ddwy flynedd yn ôl ac ers hynny, mae £1,800 wedi eu casglu. Mae £1,000 wedi eu cyfrannu tuag at waith ymchwil yn Lerpwl, ac y mae gobaith yn awr o gasglu digon i brynu 'Ready' sef peiriant arennau y gellir ei symud o gwmpas.

Trefnwyd y pŵl noddedig gan Jim Jones, gydag Aneurin Jones, Richard Griffiths, Eric Bayliss, Lal Jones (a oedd yn rhy swil i gael tynnu ei lun!), Noel Owen, Harold Wright, Philip Guy a Jim Jones ei hun yn cymryd rhan.

Dymuna'r aelodau ddiolch i Westy Dolbadarn am gael defnyddio'r bwrdd pŵl ac i'r ardal gyfan am y gefnogaeth frwd.

## DEINIOLEN v LLANRUG



*Cyfnod cyffrous yn y gêm ddiweddar rhwng Llanrug a Deiniolen.*